# Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol

Mawrth 2020 Fersiwn 1.0

## Pecyn asesu

# Cynnwys

Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol 1

Cynnwys 2

1 Trosolwg asesu 3

2 Cyfarwyddyd i ymgeiswyr 4

3 Cyflwyniad asesu i diwtoriaid/aseswyr mewnol 10

4 Canllawiau i aseswyr allanol 22

Atodiad 1 Gofynion marcio 28

Atodiad 2 Tablau o'r disgrifyddion graddio 29

Atodiad 3 Ffurflen cofnodi'r aseswr mewnol 43

Atodiad 4 Ffurflen cofnodi'r aseswr allanol 46

Atodiad 5 Ffurflen crynodeb graddio'r aseswr allanol 49

Atodiad 6 Ffurflen cofnodi arsylwadau (Aseswr mewnol) 51

Atodiad 7 Ffurflen adborth 52

Atodiad 8 Datganiad 53

# 1 Trosolwg asesu

## Dull asesu

Caiff y cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol ei asesu drwy'r asesiadau canlynol.

- portffolio o dystiolaeth (Tasg A)
- disgrifiad sy'n ymwneud â deddfwriaeth (Tasg B)
- arsylwi'n uniongyrchol ar ymarfer (Tasg C(i))
- log myfyriol o ymarfer (Tasg C(ii))
- trafodaeth broffesiynol (Tasg Ch)

Ceir dadansoddiad manwl o'r tasgau hyn isod.

### Tasg A – Portffolio o dystiolaeth

Bydd yr ymgeisydd yn cadw portffolio o dystiolaeth drwy gydol ei gyfnod asesu.

### Tasg B – Disgrifiad o ddeddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd lunio disgrifiad sy'n dangos ac yn nodi sut y defnyddir deddfwriaeth i lywio ei ymarfer.

### Tasg C(i) – Arsylwi'n uniongyrchol ar ymarfer

Bydd yr ymgeisydd yn cael ei arsylwi ar dri achlysur yn ymarferol fel rhan o'r asesiad hwn. Rhaid i bob un o'r arsylwadau ddangos sut mae'r ymgeisydd yn cefnogi unigolyn a/neu ofalwr a

• yn cymhwyso egwyddorion eiriolaeth annibynnol yn ymarferol

Yn ogystal, rhaid arsylwi ar yr ymgeiswyr ar o leiaf un achlysur ar draws yr arsylwadau,

• cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau
• cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i wneud penderfyniadau
• cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau

### Tasg C(ii) – Log myfyriol o ymarfer

Bydd yr ymgeisydd yn cadw log myfyriol o ymarfer drwy gydol y cyfnod asesu.

### Tasg Ch – Trafodaeth broffesiynol

Bydd yr ymgeisydd yn ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol ag aseswr allanol fel gwerthusiad o'i ymarfer.

# 2 Cyfarwyddyd i ymgeiswyr

## Trosolwg Asesu

Datblygwyd a dyluniwyd y cymhwyster hwn i'ch galluogi i ddangos eich gallu i gefnogi a chyflwyno ymarfer fel Eiriolwr Annibynnol. Bydd cwblhau'r cymhwyster hwn yn eich galluogi i ddatblygu, cyflwyno a chynnal ymarfer sy'n sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau plant a phobl ifanc/unigolion a/neu ofalwyr eu hystyried.

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys nifer o weithgareddau. Fe'u dyluniwyd i asesu eich gallu i ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer rôl Eiriolwr Annibynnol, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer eich ymarfer. Bydd y cyfnod asesu cyfan yn para tua 9-12 mis.

Fel rhan o'r gweithgareddau hyn, arsylwir arnoch yn ymarfer (Tasg B(i)) ar dri achlysur yn eich rôl. Yn ystod y tri achlysur, arsylwir arnoch yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol ac arsylwir arnoch yn gwneud y canlynol:

- Rhoi egwyddorion eiriolaeth annibynnol ar waith
- Helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau
- Helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud penderfyniadau
- Helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau

Caiff yr asesiad o ymarfer ei ategu gan weithgareddau pellach wedi'u hanelu at ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth sy'n adlewyrchu eich ymarfer. Bydd yn ofynnol i chi wneud y canlynol:

- Llunio **disgrifiad** yn nodi sut y defnyddir deddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol i lywio eich ymarfer (Tasg B)
- Cwblhau **log myfyriol o ymarfer** (Tasg C(ii))
- Cynnal gwerthusiad terfynol o'ch asesiadau a sut rydych yn gweithio drwy **drafodaeth broffesiynol** (Tasg Ch)

Caiff **portffolio o dystiolaeth** (Tasg A) ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer unrhyw ddeilliannau dysgu lle na fydd cyfleoedd ymarferol yn cael eu cyflwyno'n llawn o bosibl drwy'r gweithgareddau asesu eraill.

Diben y portffolio yw:

- Ategu tystiolaeth ar gyfer meysydd deilliant o'r cynnwys gorfodol a/neu'r cynnwys dewisol na fydd o bosibl yn digwydd yn naturiol neu'n bosibl ei chymhwyso drwy'r arsylwadau a gynhelir.
- Rhoi cyfle i chi ddarparu tystiolaeth o gyflawniadau a gweithgareddau allweddol y tu allan i'r gweithgareddau asesu allweddol.

# Gwybodaeth gyffredinol i ymgeiswyr

**Cyflwyniad i'r tasgau**
Lle mae'r tasgau yn cyfeirio at 'y llwybr a ddewiswyd gennych', nodwch fod hyn yn ymwneud â'r llwybr rydych wedi canolbwyntio arno fel rhan o'ch rhaglen ddysgu. Bydd hyn yn ymwneud ag un o'r canlynol,

a) Eiriolaeth annibynnol ag oedolion
b) Eiriolaeth annibynnol â phlant a phobl ifanc
c) Eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol
d) Eiriolaeth galluedd meddyliol annibynnol

**Terminoleg**
Mae'r term 'unigolion' yn y pecyn asesu hwn yn cyfeirio at naill ai oedolion neu blant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar eich rôl.

**Cyflwyno tystiolaeth**
Mae angen ymatebion ysgrifenedig ar gyfer Tasgau B a C(ii). Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio. Dylech sicrhau bod eich gwaith yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), a defnyddiwch ofod dwbl gan sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.

**Defnyddio adnoddau allanol a chyfeiriadau**
Lle y bo'n berthnasol, caniateir i chi ddefnyddio a chyfeirio at adnoddau allanol drwy gydol y tasgau asesu. Fodd bynnag, rhaid i chi nodi manylion clir a chyfeirio at unrhyw ffynonellau allanol y cyfeiriwyd atynt neu a ddefnyddiwyd fel rhan o'ch ymatebion. Mae adran '***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad*** ' pob tasg yn nodi'n glir os oes yn rhaid darparu rhestr cyfeiriadau os ydych wedi defnyddio unrhyw adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg.

**Cyfrinachedd**
Mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â gofynion cyfrinachedd a chydsyniad eich sefydliad/lleoliad bob amser wrth gwblhau'r tasgau asesu. Rhaid i'r holl dystiolaeth a gyflwynir fodloni gofynion cyfrinachedd a chydsyniad eich sefydliad/lleoliad. Rhaid i chi hefyd fod yn ymwybodol o ystyriaethau diogelu yn eich amgylchedd gwaith a sicrhau eich bod bob amser yn gweithio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â nhw.

**Tasg A**
Mae'n ofynnol i chi gadw portffolio o dystiolaeth drwy gydol eich cyfnod asesu. Nod y portffolio yw cofnodi tystiolaeth o ddeilliannau na fyddai tystiolaeth uniongyrchol ohonynt i'w gweld drwy eich tasgau a'ch arsylwadau. Gallwch hefyd ddefnyddio'r portffolio i ddarparu unrhyw enghreifftiau 'eithriadol' o dystiolaeth sy'n cofnodi gweithgareddau a chyflawniadau allweddol rydych wedi ymgymryd â nhw fel rhan o'ch ymarfer yn ystod y cyfnod asesu.

Gofynnir i chi gyflwyno eich portffolio, ac mae'n bosibl y gofynnir cwestiynau i chi am gynnwys eich portffolio yn ystod y drafodaeth broffesiynol yn Nhasg D.

Bydd eich aseswr mewnol yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi dewis y dystiolaeth fwyaf perthnasol i'w chyflwyno o'ch portffolio.

***Amodau asesu***

Amodau arferol y gweithle

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad***

- Portffolio o dystiolaeth – a all gynnwys – dogfennaeth/cynhyrchion, tystiolaeth tystion, ymatebion i gwestiynau, myfyrdodau, astudiaethau achos cefnogol

**Tasg B**
Mae'n ofynnol i chi lunio disgrifiad sy'n dangos ac yn nodi sut mae deddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol yn ategu rôl Eiriolwyr Annibynnol ac yn cael eu defnyddio i lywio ymarfer.

Dylech ystyried y canlynol:
- yr amrywiaeth o wahanol ddeddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol sy'n llywio rôl Eiriolwr Annibynnol
- pwysigrwydd deall amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth fel eiriolwr annibynnol
- sut rydych wedi cymhwyso eich dealltwriaeth o ddeddfwriaeth i lywio eich ymarfer.

**Noder**, rhaid i'ch ymateb gyfeirio at yr holl ddeddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol rydych wedi dysgu amdanynt fel rhan o'ch rhaglen ddysgu wrth ystyried sut mae deddfwriaeth yn ategu rôl Eiriolwyr Annibynnol.

***Amodau asesu:***
**Nid** oes angen i chi gwblhau eich disgrifiad o dan amodau wedi'u goruchwylio, ond rhaid iddo fod yn ddisgrifiad dilys o'ch dealltwriaeth o ddeddfwriaeth (h.y. rhaid iddo gael ei ysgrifennu yn eich geiriau a'ch arddull eich hun a chan gyfeirio at eich ymarfer).

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
- Disgrifiad o ddeddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol

- Rhestr cyfeiriadau ar gyfer unrhyw waith ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

**Tasg C**

*Ar gyfer Tasg C, mae'n ofynnol i chi ddangos sut rydych yn ymarfer fel Eiriolwr Annibynnol.*

**Tasg C(i)**

Arsylwir arnoch yn ymarfer ar dri achlysur fel rhan o'r asesiad hwn.

Rhaid i bob arsylwad ddangos sut rydych yn helpu unigolyn a/neu ofalwr ac

- yn rhoi egwyddorion eiriolaeth annibynnol ar waith

Yn ogystal, rhaid arsylwi arnoch o leiaf unwaith yn ystod yr arsylwadau yn gwneud y canlynol,

- helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau
- helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud penderfyniadau
- helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau

Cynhelir pob arsylwad yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd gennych.

Caiff y tri arsylwad eu cynnal dros gyfnod o tua 6-9 mis. Bydd o leiaf mis rhwng pob arsylwad a chytunir arnynt â'ch aseswr mewnol. Rhaid i chi ystyried adborth ac arweiniad parhaus a roddir fel rhan o'ch sesiynau goruchwylio arferol ac o'ch ymarfer parhaus fel rhan o bob arsylwad.

Gall arsylwadau fod yn cefnogi'r un unigolyn a/neu ofalwr dros gyfnod o amser neu gall pob arsylwad ymwneud â gwahanol unigolion a/neu ofalwyr. Bydd angen i chi ddangos eich bod wedi dilyn gofynion cydsyniad eich sefydliad bob amser wrth gynllunio i gefnogi unigolion.

***Amodau asesu:***

Amodau arferol y gweithle

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Ffurflenni cofnodi arsylwadau (Aseswr Mewnol) (Atodiad 6)

## Tasg C(ii)

Byddwch yn cadw log myfyriol o'ch ymarfer drwy gydol y cyfnod asesu. Bydd hyn yn cynnwys

- Cyfeiriad penodol at yr arsylwadau a gynhaliwyd yn ystod Tasg C(i)
- Myfyrio ar sut mae rhoi gwahanol ddeddfwriaeth, confensiynau ac offerynnau hawliau dynol ar waith wedi llywio eich ymarfer wrth gefnogi unigolion
- Ystyried sut rydych wedi cynnwys adborth uniongyrchol o sesiynau goruchwylio, yn ogystal â'ch myfyrdodau eich hun o'ch ymarfer.

***Amodau asesu:***

**Nid** oes angen i chi gwblhau eich log myfyriol o dan amodau wedi'u goruchwylio, ond rhaid iddo fod yn ddisgrifiad dilys o'ch dealltwriaeth o ddeddfwriaeth (h.y. rhaid iddo gael ei ysgrifennu yn eich geiriau a'ch arddull eich hun a chan gyfeirio at eich ymarfer).

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Log myfyriol
- Rhestr cyfeiriadau ar gyfer unrhyw waith ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

**Tasg Ch**

## Trafodaeth broffesiynol

Fe'ch gwahoddir i fynychu trafodaeth broffesiynol ag aseswr allanol ar ôl i chi gwblhau Tasgau A-C.

**Cynnwys a strwythur y drafodaeth broffesiynol**

Bydd y drafodaeth yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych fel rhan o'r asesiadau eraill a gwblhawyd gennych. Bydd yn ofynnol i chi fyfyrio ar sut y mae eich ymarfer wedi bodloni egwyddorion ac arferion eiriolaeth annibynnol a gwerthuso hynny.

Gallwch baratoi nodiadau ymlaen llaw, a gallwch ddod â'r rhain gyda chi a'u defnyddio i'ch helpu yn ystod y drafodaeth.

Bydd gan yr aseswr allanol ddiddordeb yn eich dull o weithio sy'n dangos y safon rydych yn ei chyrraedd. Yn ystod y drafodaeth, dylech ddefnyddio'r canlynol:

- Y wybodaeth a ddarparwyd yn eich tasgau
- Enghreifftiau penodol o brofiadau ac arferion gwaith
- Y wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych wedi'u meithrin o'ch rhaglen ddysgu

Rhestrir y prif bwyntiau trafod isod. Ar gyfer rhai o'r meysydd hyn, mae'n bosibl y bydd yr aseswr allanol yn gofyn mwy nag un cwestiwn i chi, neu mae'n bosibl y bydd yn treulio mwy o amser yn canolbwyntio ar faes penodol. Mae'r aseswr allanol yn chwilio am dystiolaeth eich bod wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau o'ch dysgu at eich ymarfer.

Mae'r aseswr allanol yn chwilio am dystiolaeth o sut rydych yn gwneud y canlynol:

- Cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau gweithio yn y maes llwybr a ddewiswyd gennych
- Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth, y confensiynau a'r offerynnau hawliau dynol sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd gennych
- Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau plant a phobl ifanc/unigolion a/neu ofalwyr eu cynrychioli

- Datblygu fel dysgwr effeithiol ac annibynnol sy'n meddu ar sgiliau meddwl beirniadol a myfyriol yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd
- Defnyddio sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol i sicrhau bod ymarfer yn seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth
- Dangos hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer yn y llwybr a ddewiswyd
- Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau

Rhaid i chi ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y drafodaeth yn annibynnol heb gymorth.

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o gyfrinachedd wrth ddarparu enghreifftiau o'r gweithle.

Gallwch ddod â'r ddogfennaeth ganlynol gyda chi er mwyn cyfeirio ati:
- copi o'r holl dasgau a thystiolaeth o'r portffolio
- unrhyw nodiadau paratoadol

**Yr amser a ganiateir ar gyfer trafodaeth broffesiynol**
Ni fydd y drafodaeth yn para mwy na **45 munud**.

***Amodau asesu***
Trafodaeth broffesiynol, mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
Nodiadau'r aseswr o'r drafodaeth.

# 3 Cyflwyniad asesu i diwtoriaid/aseswyr mewnol

## Cyflwyniad

Dyluniwyd yr asesiad hwn i'w gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio'r 'pecyn cymorth' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau y maent wedi'i lunio yn ystod eu rhaglen ddysgu ar gyfer y cymhwyster hwn, er mwyn iddynt ddangos eu gallu i weithio fel Eiriolwr Annibynnol.

Datblygwyd yr asesiad a gyflwynir yma er mwyn sicrhau bod y tasgau yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cwblhau unrhyw un o'r llwybrau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn. Dylai'r aseswr mewnol sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o hyn ac y dylid ymateb i'w tasgau o fewn cyd-destun y llwybr a ddewiswyd ganddynt.

### Rolau yn y broses

Mae'r aseswr mewnol yn gyfrifol am asesu Tasgau A-C gan ddilyn y gofynion marcio a ddarperir yn y pecyn asesu hwn (Atodiad 1).

Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar gyfer Tasgau A-C cyn eu cyflwyno i City & Guilds.

Mae'n bosibl y bydd tiwtoriaid yn rhan o'r broses o ryddhau/pennu tasgau i ymgeiswyr. Fodd bynnag, yr aseswr mewnol fydd yn sicrhau yr ymgymerir â'r asesiadau fel y dynodir yn y canllawiau hyn ac yn asesu tasgau A-C yn unol â'r gofynion marcio.

### Cadarnhau'r cyfnod asesu

Cyn dechrau'r cyfnod asesu, dylai'r rheolwr/goruchwyliwr, yr aseswr mewnol a'r ymgeisydd drafod parodrwydd yr ymgeisydd ar gyfer yr asesiad a chytuno p'un a yw'n barod ai peidio.

Disgwylir i'r cyfnod asesu ddigwydd o fewn cyfnod o 9-12 mis. Darparwyd yr ystod amser er mwyn cefnogi'r amrywiaeth o rolau y bydd ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r cymhwyster hwn yn eu cyflawni – ac er mwyn darparu ar gyfer y rheini sy'n gweithio'n rhan-amser, er enghraifft. I'r rheini sy'n gweithio'n llawn-amser, disgwylir y byddai'n ymarferol cynnal yr asesiad o fewn cyfnod o 9 mis.

Os cytunnir y bydd yr asesiad yn cymryd mwy na 9 mis, dylid cofnodi'r penderfyniad hwn, a nodi rhesymeg i gadarnhau pam y cytunwyd ar y dull hwn. Dylid cadw'r rhesymeg hon a sicrhau ei bod ar gael ar gyfer gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol.

## Cynnal yr asesiadau

**Cyflwyno'r asesiad i ymgeiswyr**

Datblygwyd y tasgau mewn dilyniant sy'n adlewyrchu'r dull cyflwyno disgwyliedig ar gyfer cynnwys y cymhwyster hwn. Felly, argymhellir y dylid cwblhau'r tasgau mewn dilyniant. **Noder,** gellir defnyddio tystiolaeth o unrhyw ran o'r cyfnod asesu ar gyfer y portffolio.

Mae rhyddhau'r asesiad i'r ymgeisydd yn cadarnhau bod yr aseswr mewnol yn hyderus bod yr ymgeisydd wedi ymgymryd â digon o addysgu a dysgu i fod wedi datblygu dyfnder dealltwriaeth a fydd yn ei alluogi i ymateb i'r tasgau.

**Amodau asesu**

Oherwydd natur y tasgau, caniateir i'r ymgeisydd gwblhau Tasgau B a C(ii) gan weithio'n annibynnol o dan amodau tawel lle y caiff lonydd. Nid oes angen goruchwylio'r tasgau hyn yn llawn, ond rhaid i'r tiwtor/aseswr mewnol allu cadarnhau dilysrwydd gwaith terfynol ymgeiswyr.

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen datganiad dilysrwydd (Atodiad 8) i gadarnhau mai ei waith ef yw'r gwaith a gyflwynir ganddo. Mae'r aseswr mewnol yn gyfrifol am nodi unrhyw bryderon o ran y gwaith a gyflwynir a rhaid iddo hefyd lofnodi'r ffurflen datganiad i gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynir.

**Cwblhau a chyflwyno'r asesiad**

Dim ond pan fydd y tiwtor/aseswr mewnol yn hyderus bod yr ymgeisydd yn meddu ar wydodaeth a dealltwriaeth gadarn ac y bydd yn gallu cwblhau'r tasgau asesu y dylid rhyddhau'r pecyn asesu i ymgeiswyr.

Oherwydd natur y tasgau, gall y tiwtor/aseswr mewnol ryddhau'r pecyn asesu cyfan i'r ymgeisydd. Dylid helpu'r ymgeisydd i ddeall yr holl dasgau asesu a strwythur yr asesiad; gan egluro'r cysylltiadau rhwng y tasgau. Er y gellir rhyddhau'r holl asesiadau ar ddechrau'r broses, rhagwelir y byddai'r ymgeisydd yn gweithio drwy'r tasgau asesu yn y drefn y'u cyflwynir yn y pecyn asesu.

Dylai'r tiwtor/aseswr mewnol drafod a chytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau'r tasgau â'r ymgeisydd, gan ystyried ei raglen gyflwyno a'i allu i ymgymryd â phob un o'r tasgau'n llwyddiannus. Yn dilyn y drafodaeth hon ac ar ôl cytuno ar yr amserlen, rhaid i'r tiwtor/aseswr mewnol roi amserlen arfaethedig i'r ymgeisydd ar gyfer cwblhau yr holl dasgau, gan nodi dyddiadau cyflwyno clir. Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno pob tasg fel ei waith terfynol a chaiff ei asesu'n unol â hynny.

Awgrymir y dylid cadw'r tabl isod (neu dabl tebyg i'r un a gyflwynir isod) ar gyfer pob ymgeisydd; gan gofnodi dyddiad rhyddhau'r dasg, y dyddiad cyflwyno a ragwelir a'r dyddiad derbyn gwirioneddol. Gellir defnyddio'r tabl hwn hefyd er mwyn cofnodi unrhyw dasgau y mae angen eu hailgyflwyno, fel y bo'n gymwys.

| | Dyddiad dechrau y cytunwyd arno | Dyddiad disgwyliedig y cyflwyniad | Dyddiad derbyn y cyflwyniad | Dyddiad disgwyliedig yr ailgyflwyniad (os yw'n gymwys) | Dyddiad derbyn yr ailgyflwyniad (os yw'n gymwys) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg A | | | | | |
| Tasg B | | | | | |
| Tasg C(i) – Arsylwad 1 | | | | | |
| Tasg C(i) – Arsylwad 2 | | | | | |
| Tasg C(i) – Arsylwad 3 | | | | | |
| Tasg C(ii) | | | | | |
| Tasg Ch | | | | | |

Dylid cynnal y drafodaeth broffesiynol (Tasg Ch) o fewn 3 wythnos i'r dyddiad y bydd City & Guilds yn cadarnhau ei fod wedi derbyn tystiolaeth yr ymgeisydd ar gyfer Tasgau A, B a C.

**Adolygu'r dystiolaeth a'r graddau**

Ar gyfer Tasg B, bydd yr aseswr mewnol yn asesu'r dasg a gwblhawyd gan yr ymgeisydd yn erbyn y meini prawf marcio a ddarperir (Atodiad 1).

Ar gyfer Tasg C(i), bydd yr aseswr mewnol yn adolygu perfformiad yr ymgeisydd ar gyfer pob arsylwad yn erbyn deilliannau dysguu cynnwys y llwybr gorfodol a'r llwybr dewisol fel yr amlinellir yn y gofynion marcio (Atodiad 1).

Bydd yr aseswr mewnol yn cwblhau ffurflen cofnodi arsylwadau (Atodiad 6) er mwyn nodi tystiolaeth o'r arsylwad a sut mae pob arsylwad yn bodloni'r deilliannau dysgu.

Bydd yr aseswr mewnol yn cwblhau Ffurflen Cofnodi'r Aseswr Mewnol (Atodiad 3) er mwyn nodi canlyniad asesu Tasgau A-C. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon wedi'i chwblhau, ynghyd â'r holl ffurflenni cofnodi arsylwadau wedi'u cwblhau (Atodiad 6), i City & Guilds ochr yn ochr â thystiolaeth yr ymgeisydd ar gyfer Tasgau A-C gan mai dyma a ddefnyddir fel tystiolaeth gan yr aseswr allanol fel rhan o'r farn asesu derfynol.

Yr aseswr allanol fydd yn llunio'r farn asesu derfynol ac yn cadarnhau gradd yr ymgeisydd.

**Sicrhau ansawdd mewnol**

Cyn cyflwyno'r canlyniadau asesu i City & Guilds, rhaid i Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol sicrhau ansawdd yr holl dystiolaeth asesu. Dylai Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan aseswyr mewnol er mwyn llywio'r broses o asesu'r dystiolaeth yn erbyn y deilliannau dysgu. Bydd hyn yn cynnwys adolygu sut y lluniodd yr aseswr mewnol ei farn yn erbyn y deilliannau dysgu a'r gofynion marcio (lle y bo'n briodol) a

dylai gadarnhau bod y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer y farn hon yn gadarn ac y cyfeirir yn gywir ati ar Ffurflen cofnodi'r aseswr mewnol (Atodiad 3) yn erbyn y dystiolaeth a gwblhawyd gan yr ymgeisydd ar gyfer y tasgau.

**Paratoi a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer y cyflwyniad allanol**

Caiff yr ymatebion asesu ar gyfer Tasg A, B a C(ii) eu cyflwyno i'w hadolygu fel rhan o'r farn asesu allanol derfynol gan yr aseswr mewnol ar ôl eu cwblhau. Dylid cyflwyno deunyddiau'r ymgeisydd ar gyfer yr asesiadau hyn ar ôl cwblhau'r holl dasgau, ynghyd â Ffurflen Cofnodi'r Aseswr Mewnol (Atodiad 3) a'r ffurflenni Cofnodi Arsylwadau (Atodiad 6) wedi'u cwblhau.

Dylai'r aseswr mewnol sicrhau y caiff y ffurflen datganiad dilysrwydd (Atodiad 8) ei chwblhau gan yr ymgeisydd a'r aseswr mewnol a'i chyflwyno gyda'r deunyddiau asesu ar gyfer y tasgau.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu fel a ganlyn:

- Rhaid sicrhau bod pennawd ar bob dudalen o dystiolaeth sy'n cynnwys enw ac e-lofnod yr ymgeisydd, ynghyd â'r dyddiad y lluniwyd y dystiolaeth.
- Rhaid sicrhau bod pob darn o dystiolaeth yn cyfeirio at y dasg y caiff ei chyflwyno yn ei herbyn, naill ai ar ffurflen cyfeirio tystiolaeth neu fel rhan o'r pennawd.

Rhaid i'r ganolfan hysbysu City & Guilds y bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth o leiaf dair wythnos cyn ei chyflwyno.

Bydd City & Guilds yn cadarnhau canlyniadau'r ymgeisydd o fewn 30 diwrnod gwaith i'r drafodaeth broffesiynol derfynol a gynhelir gan yr aseswr allanol.

**Trefniadau ailsefyll**

Caniateir i ymgeiswyr sy'n methu â bodloni'r meini prawf gofynnol i lwyddo mewn unrhyw dasg asesu ailsefyll y dasg.

**Tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol**

Ar gyfer Tasg B, os bydd ymgeiswyr yn methu â bodloni'r meini prawf marcio, yna caniateir iddynt ailsefyll y dasg.

Ar gyfer Tasg C(i), os bydd ymgeiswyr yn methu â darparu digon o dystiolaeth yn seiliedig ar ymarfer i fodloni'r deilliannau dysgu, yna gall yr ymgeisydd ymgymryd ag arsylwad arall. Gweler yr adran canllawiau ar dasgau i gael rhagor o wybodaeth.

Dylai'r aseswr mewnol ddarparu adborth lefel uchel i'r ymgeisydd gan ddefnyddio'r ffurflen adborth a ddarperir (Atodiad 7).

**Tasgau a gaiff eu hasesu'n allanol**
Ar ôl cyflwyno tystiolaeth yr ymgeisydd, os bydd yr aseswr allanol yn nodi na ddarparwyd digon o dystiolaeth i gadarnhau llwyddiant, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymgymryd â gweithgaredd ychwanegol.

Os na fydd yr aseswr allanol yn gallu dyfarnu llwyddiant i'r ymgeisydd ar ôl cwblhau Tasg Ch, bydd yn rhoi adborth ar berfformiad cyffredinol yr ymgeisydd, gan dynnu sylw at y meysydd amcan o'r disgrifiadau gradd y mae angen arsylwi ar dystiolaeth bellach ar eu cyfer a'r tasgau asesu y gellir ymgymryd â nhw er mwyn dangos tystiolaeth o'r fath. Mewn rhai achosion, gall fod angen cyflwyno tystiolaeth ychwanegol drwy'r portffolio. Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd yr aseswr allanol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol bellach yn dilyn cyfnod o ddysgu a chymorth pellach er mwyn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi datblygu hyd at lefel ddigonol i ddyfarnu llwyddiant iddo.

Bydd yr aseswr allanol yn rhoi adborth i'r aseswr mewnol a'r ymgeisydd gan ddefnyddio Adran 3 o ffurflen Crynodeb graddio'r aseswr allanol (Atodiad 5) er mwyn cadarnhau'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd fel rhan o'r broses ailgyflwyno. Rhoddir adborth ar lefel uchel er mwyn helpu'r ymgeisydd i ddeall y meysydd amcan na ddarparwyd tystiolaeth ddigonol ar eu cyfer o fewn y meini prawf graddio, er mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd nodi'n union sut y bydd yn ymateb ac yn darparu tystiolaeth bellach fel y bo angen.

Lle y bo'n ofynnol i ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bellach neu ailsefyll unrhyw dasg, rhaid i'r aseswr mewnol ddarparu llwybr archwilio clir sy'n dangos sut y rhoddwyd adborth i'r ymgeisydd, a pha gamau adfer a gymerwyd er mwyn helpu'r ymgeisydd i ddatblygu unrhyw ddiffygion o ran ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth.
Darperir ffurflen adborth at y diben hwn (Atodiad 7).

## Canllawiau ar dasgau

### Tasg A – Portffolio o dystiolaeth

Diben y portffolio yw:

- Ategu tystiolaeth ar gyfer unrhyw feysydd deilliant o'r cynnwys gorfodol a/neu'r cynnwys dewisol na fydd o bosibl yn digwydd yn naturiol neu'n bosibl ei chymhwyso drwy'r tasgau asesu eraill oherwydd natur yr asesiadau.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gyflawniadau a gweithgareddau allweddol y tu allan i'r gweithgareddau asesu allweddol. *

* Mae'n bwysig atgoffa ymgeiswyr y dylid defnyddio'r portffolio i gofnodi enghreifftiau arbennig neu eithriadol o'u hymarfer; ni fwriedir iddo gynnig disgrifiad trafodol o'r holl waith y mae ymgeisydd wedi'i wneud yn ystod ei gyfnod dysgu.

**Bydd yr aseswr mewnol yn helpu'r ymgeisydd i nodi'r meysydd y bydd angen dangos tystiolaeth ohonynt drwy'r portffolio. Pennir y meysydd hyn drwy ystyried y deilliannau dysgu y dangoswyd tystiolaeth ohonynt drwy'r arsylwadau o ymarfer.**

Dylid cadw tystiolaeth o'r portffolio yn unol â gofynion cyfrinachedd a chydsyniad y gweithle/lleoliad, yn ogystal â'r amodau a amlinellir yn y Llawlyfr Gweinyddu (*Cyflwyniad i weithio gyda CIty & Guilds a CBAC*).

**Canllawiau ar dystiolaeth dderbyniol ar gyfer portffolio**
Os na ddangosir tystiolaeth lawn o unrhyw ddeilliannau dysgu drwy'r tasgau asesu eraill, yna dylai aseswyr mewnol nodi cymysgedd priodol o ddulliau asesu eraill o'r rhestr isod, er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer meysydd nad arsylwyd arnynt yn llawn a helpu i ddatblygu portffolio'r ymgeisydd.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r amrywiaeth o dystiolaeth sy'n dderbyniol, ond dylai'r ystyriaeth a roddir i'r math o dystiolaeth fod yn bennaf seiliedig ar ddiben y dystiolaeth, a'i dilysrwydd o ran dangos gallu'r ymgeisydd.

- Gall **tystion arbenigol** arsylwi ar ymarfer ymgeiswyr a darparu tystiolaeth ar gyfer ymarfer ymgeisydd. Gweler yr arweiniad pellach yn yr adran isod ar rôl tystiolaeth tystion arbenigol.
- **Tystiolaeth tystion**. Dylai gael ei rhoi gan bobl sy'n gallu darparu tystiolaeth sy'n ategu'r ffordd mae ymgeisydd yn perfformio'n ymarferol. Lle ceisir tystiolaeth gan deuluoedd/gofalwyr a/neu eraill, dylid sicrhau bod diben y dystiolaeth yn cael ei ddeall ac na theimlir unrhyw bwysau i'w rhoi.
- Gall **cynhyrchion gwaith** fod yn unrhyw beth perthnasol sydd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeiswyr eu hunain, neu y maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol ato, sy'n dangos defnydd a chymhwysiad yn eu hymarfer.
- Mae **disgrifiadau/logiau ymgeiswyr/myfyriol** yn disgrifio gweithredoedd ymgeiswyr mewn sefyllfaoedd penodol a/neu'n myfyrio ar y rhesymau dros ymarfer yn y ffyrdd a ddewiswyd. Er y bydd ymgeiswyr yn cadw log myfyriol drwy gydol y cyfnod asesu, gall disgrifiadau myfyriol ychwanegol hefyd ddarparu mwy o dystiolaeth y gall ymgeiswyr werthuso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ymarfer maes llwybr diffiniedig.
- **Cwestiynau** a ofynnir gan aseswyr mewnol ac a gaiff eu hateb gan ymgeiswyr er mwyn ategu tystiolaeth a gynhyrchir drwy arsylwadau ac unrhyw fath arall o dystiolaeth a ddefnyddir. Efallai y bydd aseswyr mewnol yn gallu cael peth gwybodaeth a dealltwriaeth o arsylwi ar ymarfer ymgeiswyr. Gallan nhw ofyn cwestiynau i gadarnhau eu dealltwriaeth a/neu gwmpasu unrhyw feysydd sy'n weddill. Gall cwestiynau gael eu gofyn ar lafar neu'n ysgrifenedig ond, yn y ddau achos, rhaid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion.
- Rhaid i **astudiaethau achos** fod yn seiliedig ar ymarfer a phrofiadau gwaith go iawn, a bydd angen i aseswr mewnol eu dilysu os cânt eu defnyddio fel tystiolaeth o berfformiad cymwys. Byddai ymarferion damcaniaethol neu efelychu ond yn dderbyniol fel tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.

**Ni chaniateir** defnyddio **asesiad ymarferol wedi'i efelychu** fel tystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau wedi'u hefelychu fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gan yr ymgeisydd.

## Defnyddio tystiolaeth tystion

Mae tystiolaeth tystion yn dderbyniol yn y portffolio, ond dylai'r defnydd ohoni fodloni'r gofynion a nodir isod.

Bydd angen i'r aseswr mewnol ystyried statws y tyst er mwyn pennu faint o bwys sydd ar ei ddatganiad, a pha dystiolaeth ategol arall allai fod ei hangen er mwyn cadarnhau cymhwysedd.

Gellir barnu statws tystion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Arbenigwr galwedigaethol sy'n bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer rôl Tyst Arbenigol (Gweler yr adran 'Tystion arbenigol' isod):
2. Arbenigwr galwedigaethol ddim yn gyfarwydd â'r safonau;
3. Rhywun nad yw'n arbenigwr yn gyfarwydd â'r safonau;
4. Rhywun nad yw'n arbenigwr ddim yn gyfarwydd â'r safonau.

Yn achos unrhyw dystiolaeth gan dyst sy'n cael ei chynnwys yn y portffolio, dylid nodi'n glir pwy yw'r tyst, a'i statws.

## Tystion arbenigol

Lle y defnyddir tystiolaeth tystion arbenigol er mwyn darparu tystiolaeth o gymhwysedd, rhaid i'r dystiolaeth ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad yr ymgeisydd yn y gweithle/lleoliad y mae'r tyst wedi arsylwi'n uniongyrchol arno. Rhaid cofnodi unrhyw arsylwadau gan dystion arbenigol a'u cadw fel rhan o'r portffolio. Mae angen i'r aseswr mewnol ddilysu'r holl arsylwadau gan dystion arbenigol a ddefnyddiwyd fel rhan o'r broses asesu.

Lle maen nhw'n cael eu defnyddio, rhaid i dystion arbenigol fodloni'r meini prawf canlynol:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu ar unrhyw gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol a oedd yn cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff

## Tystion nad ydynt yn arbenigwyr

Byddai statws 2, 3 neu 4 yn y rhestr uchod yn gymwys i'r tystion hyn. Nid oes angen i dystion nad ydynt yn arbenigwyr feddu ar gymhwyster asesu, oherwydd yr aseswr fydd yn gwneud y penderfyniad(au) asesu terfynol ynghylch pa mor dderbyniol (dilysrwydd a digonolrwydd) yw'r holl dystiolaeth yn y portffolio.

## Dewis tystiolaeth ar gyfer y portffolio

Cyn dewis y dystiolaeth ar gyfer y portffolio, dylai'r ymgeisydd adolygu'r gofynion asesu er mwyn sicrhau ei fod yn deall y canlynol:

- y deilliant y dylai'r portffolio ymdrin ag ef
- y math o dystiolaeth y gellir ei chyflwyno
- faint o dystiolaeth y byddai'n briodol ei chyflwyno
- y cyfnod amser y dylai'r dystiolaeth ddeillio ohono

Er mwyn llunio eu portffolio, dylai'r ymgeisydd ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael iddo er mwyn dangos ei fod wedi bodloni'r gofynion a gaiff eu hasesu. Tystiolaeth a gesglir tuag at ddiwedd ei raglen, wrth iddo weithio mewn ffordd gynyddol annibynnol, sy'n debygol o ddarparu'r dystiolaeth fwyaf cyfannol – h.y. ymdrin â nifer o ddeilliannau dysgu ar yr un pryd. O'r dystiolaeth hon, dylai ddewis y dystiolaeth sy'n bodloni'r holl ddeilliannau dysgu perthnasol yn y ffordd **fwyaf effeithlon**, ac sy'n dangos ei **berfformiad gorau**. Er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y dystiolaeth a gesglir, fel arfer, ni ddylid cyflwyno darnau niferus o dystiolaeth sy'n ymdrin â'r un deilliannau dysgu i'w hasesu.

Dylai ymgeiswyr ystyried dau gwestiwn wrth ddewis gwaith ar gyfer eu portffolio:

1. *Pa ddarnau, yn gyfannol (yn y ffordd fwyaf effeithlon), sy'n darparu tystiolaeth sy'n ymdrin â'r holl ddeilliannau perthnasol?*
2. *Ai dyma'r dystiolaeth **orau** sydd gennyf, i ddangos fy mod wedi bodloni'r deilliannau dysgu?*

## Cadarnhau'r dystiolaeth a ddewiswyd

Pan fydd yr ymgeisydd wedi dewis y dystiolaeth ar gyfer ei bortffolio, rhaid i'r aseswr mewnol ei hadolygu er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod tystiolaeth o'r holl ddeilliannau dysgu y mae'n ofynnol i'r portffolio ymdrin â nhw
- Ei bod yn unol â'r gofynion asesu a'i bod yn deillio o'r cyfnod asesu
- Nad oes unrhyw achosion diangen o ddyblygu tystiolaeth yn erbyn yr un meini prawf
- Bod swm y dystiolaeth a gyflwynir yn y portffolio yn gymesur, ac nad oes unrhyw achosion uniongyrchol o ddyblygu tystiolaeth ar gyfer deilliannau yr arsylwyd arnynt yn ddigonol drwy'r tasgau
- Bod y gwaith a ddewiswyd yn cynrychioli'r dystiolaeth gyfannol orau sydd ar gael
- Bod eglurder unrhyw ddelweddau neu dystiolaeth a gafodd ei sganio yn ddigon da i bennu ansawdd y dystiolaeth wreiddiol
- Bod dilysrwydd y dystiolaeth wedi'i gadarnhau

Dylai'r aseswr mewnol gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynir yn y portffolio yn berthnasol ac yn rhesymegol. Bod y portffolio wedi'i ddefnyddio i goladu darnau 'eithriadol' o raglen ddysgu'r ymgeisydd, heb achosion gormodol o ddyblygu tystiolaeth.

## Tasg B – Disgrifiad o ddeddfwriaeth

Ar gyfer Tasg B lle mae angen ymateb ysgrifenedig gan yr ymgeisydd, cynghorir na ddylid cymhwyso terfyn cyfrif geiriau yn erbyn y dasg hon.

## Tasg C(i) – Arsylwi ar ymarfer

Fel rhan o'u trefniadau cymorth a goruchwylio parhaus, mae'n ofynnol i'r aseswr mewnol gynllunio tri achlysur lle y gellir arsylwi ar yr ymgeisydd yn ymarfer. Rhaid i bob arsylwad ddangos yr ymgeisydd yn helpu unigolyn a/neu ofalwr ac yn

- rhoi egwyddorion eiriolaeth annibynnol ar waith

Yn ogystal, rhaid arsylwi ar yr ymgeisydd o leiaf unwaith yn ystod yr arsylwadau yn gwneud y canlynol,

- helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau
- helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud penderfyniadau
- helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau

Caiff y tri arsylwad eu cynnal dros gyfnod o tua 6-9 mis. Dylid cynllunio'r arsylwadau gan adael digon o amser rhyngddynt er mwyn gallu cynnal sesiynau goruchwylio a rhoi adborth ar ymarfer yr ymgeisydd rhwng pob arsylwad. Dylai'r aseswr mewnol gadarnhau cysondeb ymarfer yr ymgeisydd yn ystod yr arsylwadau.

Gellir trefnu arsylwadau er mwyn dilyn un unigolyn a/neu ofalwr neu gall pob arsylwad ymwneud â gwahanol unigolion a/neu ofalwyr.

Ar gyfer pob arsylwad, dylid cwblhau'r **Ffurflen Cofnodi Arsylwadau (Aseswr) (Atodiad 6)** a'i chyflwyno ynghyd â thystiolaeth yr ymgeisydd ar gyfer y dasg.

*Ohewydd pwysigrwydd yr arsylwadau o ymarfer er mwyn cefnogi'r farn asesu gyfannol derfynol, dylai'r aseswr mewnol adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod pob arsylwad a chadarnhau ei bod yn cyrraedd y safonau a nodwyd yn y gofynion ar gyfer yr unedau a'r tasgau. Os na fydd unrhyw un o'r arsylwadau yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl ac nad arsylwir ar y dystiolaeth ddisgwyliedig – efallai y bydd angen i'r aseswr mewnol ystyried a oes angen cynnal mwy o arsylwadau. Os teimlir bod angen mwy o arsylwadau, yna dylai hyn gael ei drafod â'r ymgeisydd a'r rheolwr; dylid amlygu'r rhesymau dros yr asesiad ychwanegol, a chadarnhau'r trefniadau ar gyfer hyn.*

## Tasg C(ii) – Log myfyriol

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gadw log myfyriol, gan gofnodi myfyrdodau a gwerthusiadau o'u gwaith a'u hymarfer wrth ymgymryd â rôl Eiriolwr Annibynnol. Argymhellir cynghori ymgeiswyr ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y log hwn fel adnodd myfyriol; nid fel dyddiadur i

nodi naratif lefel uchel o ba weithgareddau a gyflawnwyd ganddynt, ond yn hytrach gan ei ddefnyddio at ddibenion hunanfyfyrio, dadansoddi beirniadol ac adolygiad manwl o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt; beth sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'u meddyliau a'u teimladau am sut i wella eu hymarfer.

Anogir tiwtoriaid/rheolwyr i archwilio'r defnydd o wahanol arddulliau o fyfyrio ag ymgeiswyr, gan helpu ymgeiswyr i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eu dull o ddysgu orau ac sy'n eu helpu yn y ffordd orau i wneud cynnydd ac i ddatblygu eu myfyrdodau er mwyn gwella eu hymarfer.

Ar gyfer Tasg C(ii) lle mae angen ymateb ysgrifenedig gan yr ymgeisydd, cynghorir na ddylid cymhwyso terfyn cyfrif geiriau yn erbyn y dasg hon.

## Tasg Ch - Trafodaeth broffesiynol

Cynhelir y drafodaeth broffesiynol lawn gan yr aseswr allanol. Bydd yn ofynnol i'r ganolfan gytuno ar ddyddiad ar gyfer y drafodaeth â City & Guilds a sicrhau y darperir amgylchedd asesu addas ar gyfer y drafodaeth hon. Rhaid sicrhau na fydd unrhyw beth yn amharu nac yn tarfu ar yr amgylchedd asesu drwy gydol yr asesiad. Gall hyn olygu y bydd angen sicrhau bod arwyddion priodol a threfniadau eraill ar waith er mwyn sicrhau amgylchedd addas drwy gydol yr asesiad. Mae City & Guilds yn argymell y dylid cynnal y drafodaeth broffesiynol o bell. Os caiff y drafodaeth broffesiynol ei hasesu o bell, yna dylai'r ganolfan sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer cynnal asesiadau o bell yn yr adran ganlynol.

### Cynnal asesiadau o bell

Mae City & Guilds yn cefnogi ac yn annog dulliau gwegynadledda i gynnal asesiadau (cynnal asesiadau o bell) lle y bo'n briodol. Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid i'r aseswr allanol a'r ymgeisydd fod yn yr un lleoliad ffisegol ar adeg cynnal yr asesiad. Argymhellir asesu o bell wrth gynnal y drafodaeth broffesiynol.

Dylai'r ganolfan drafod yr opsiwn o gynnal asesiad o bell wrth gysylltu â City & Guilds i drefnu dyddiad ar gyfer y drafodaeth broffesiynol. Os cytunnir y dylid cynnal asesiad o bell, mae'r ganolfan yn gyfrifol am sicrhau bod unigolyn penodedig yn y ganolfan yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau mynediad, y trefniadau sefydlu a'r trefniadau ar gyfer cynnal yr asesiad o bell yn bodloni'r amodau canlynol a bennwyd gan City & Guilds. Dylid sicrhau bod yr unigolyn hwn yn ymwybodol o ddiben yr asesiad a phwysigrwydd bodloni'r amodau fel y'u hamlinellir isod.

Amodau ar gyfer cynnal asesiadau o bell:

- Bydd City & Guilds yn dynodi'r dechnoleg o bell y dylid ei defnyddio (fel y cytunwyd arni wrth gadarnhau'r dyddiad ar gyfer y drafodaeth). Rhaid i'r unigolyn penodedig

yn y ganolfan wirio a chadarnhau ei bod yn gydnaws â'i systemau mewnol ac unrhyw waliau tân cyn cynllunio unrhyw asesiadau o bell.

- Rhaid cynnal asesiad naill ai gan ddefnyddio cyfrifiaduron bwrdd gwaith neu liniaduron neu dabledi yn unig, nid ffonau symudol.
- Rhaid i'r ymgeisydd fod yn y lleoliad dysgu ar yr adeg y cynhelir yr asesiad. Fel arfer, byddai'r lleoliad dysgu yn rhan o amgylchedd y ganolfan, er y gellir ei gynnal yn y gweithle os gellir bodloni'r holl amodau a nodir yma.
- Rhaid cynnal yr asesiad mewn ystafell lle na cheir unrhyw achos o amharu ar yr ymgeisydd a lle y caiff lonydd yn ystod yr asesiad.
- Mae'r person penodedig yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
    - bod yr ymgeisydd yn dod â thystiolaeth ffotograffig o bwy ydyw i'r asesiad. Rhaid i'r aseswr allanol ddilysu'r dystiolaeth hon cyn dechrau'r asesiad (h.y. gofynnir i'r ymgeisydd ddangos y dystiolaeth hon i'r aseswr allanol drwy'r cyfleuster gwegynadledda)
    - bod y dechnoleg sydd ei hangen er mwyn cynnal yr asesiad wedi'i gosod a'i bod ar gael i'r ymgeisydd er mwyn i'r asesiad ddechrau
    - bod gwaith yr ymgeisydd yn waith annibynnol ac na chaiff gymorth.
- Yn ystod yr asesiad, nid yw'n ofynnol goruchwylio'r ymgeisydd yn uniongyrchol ar y safle. Bydd yr aseswr allanol yn gweithredu fel y goruchwyliwr yn ystod yr asesiad ei hun.

Ar adeg cadarnhau'r trefniant ar gyfer y drafodaeth broffesiynol, bydd City & Guilds yn gofyn am enw a manylion cyswllt unigolyn penodedig yn y ganolfan. Bydd City & Guilds yn cadarnhau'r unigolyn penodedig sy'n gyfrifol am osod a gwirio'r trefniadau ar y safle ac yn cytuno gyda'r unigolyn hwnnw sut y caiff yr amodau asesu a nodir yma eu bodloni. Gwneir hyn cyn cynnal y drafodaeth. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am wirio, profi a chadarnhau'r dechnoleg o bell cyn dyddiad/amser yr asesiad er mwyn sicrhau na fydd unrhyw broblemau technegol yn effeithio ar yr asesiad ei hun.

Rhaid i bob asesiad a gynhelir o bell gael ei recordio'n electronig a'i storio at ddibenion sicrhau ansawdd City & Guilds.

## Gofynion gweinyddu asesiadau cyffredinol

**Amseru**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynllunio eu gwaith a'u gweithgareddau a rhaid i diwtor/aseswr mewnol gadarnhau bod eu cynlluniau yn briodol. Dylai'r tiwtor/aseswr mewnol gytuno ar amserlen dyddiadau cyflwyno ar gyfer pob tasg adeg rhyddhau'r tasgau.

**Adnoddau**

Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gan yr ymgeisydd fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig. Dylai'r ganolfan sicrhau bod cyfleusterau TG ar gael i ymgeiswyr er mwyn iddynt gwblhau'r tasgau hyn.

Ar gyfer Tasg Ch, mae'r ganolfan yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd a chyfleusterau priodol ar gyfer y drafodaeth broffesiynol.

**Cefnogaeth ac adborth**

Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i'r ymgeiswyr o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau. Dylai'r tiwtor/aseswr mewnol sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall yr hyn y mae angen iddo ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen iddo ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ei waith ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael ei arwain, nac yn cael gwybod beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n ei atal rhag gallu dangos ei broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth yn annibynnol.

# 4 Canllawiau i aseswyr allanol

**Noder, caiff y canllawiau i aseswyr allanol eu cynnwys fel pecyn ar ei ben ei hun – fe'u cynhwysir yma er mwyn sicrhau gwybodaeth gyflawn, ond ni fyddai'r canllawiau hyn yn cael eu rhoi i ganolfannau nac aseswyr mewnol er mwyn osgoi dryswch yn y rolau.**

## Cyflwyniad

Mae aseswyr allanol yn gyfrifol am adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd o Dasgau A-C ac am gynnal y drafodaeth broffesiynol (Tasg Ch). Mae'r aseswr allanol yn gyfrifol am lunio'r farn asesu derfynol gan ddefnyddio'r disgrifyddion graddio (Atodiad 2).

## Dull asesu

Mae angen i'r aseswr allanol gwblhau'r gweithgareddau hyn fel rhan o'r broses asesu:

- Adolygu'r broses o gyflwyno tystiolaeth (Tasgau A-C)
- Paratoi, cynllunio a chynnal trafodaeth broffesiynol gyffredinol (Tasg Ch)
- Cwblhau asesiad cyfannol o gymhwysedd yr ymgeisydd, yn seiliedig ar y disgrifyddion graddio (Atodiad 2) a ddarperir

## Canllawiau ar dasgau

### Trafodaeth broffesiynol

Y gweithgaredd asesu terfynol sydd angen cael ei gwblhau gan yr ymgeisydd yw trafodaeth broffesiynol â'r aseswr allanol. Cynlluniwyd yr elfen hon o'r asesiad i helpu'r ymgeisydd i werthuso a myfyrio ar ei weithgareddau asesu, ac yn arbennig sut mae wedi rhoi ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ar waith o fewn cyd-destun rôl Eiriolwr Annibynnol.

Dylai'r drafodaeth broffesiynol hefyd helpu'r aseswr allanol i gadarnhau unrhyw feysydd amcan na ddangoswyd tystiolaeth lawn ar eu cyfer drwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

### Strwythur yr asesiad

Dylai'r aseswr allanol adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd cyn y drafodaeth broffesiynol. Bydd yr aseswr allanol yn ystyried sut mae'r dystiolaeth yn deillio o Dasgau A, B a C yn cefnogi'r chwe maes amcan a bydd yn cynnal dadansoddiad bylchau er mwyn nodi meysydd allweddol ar gyfer y drafodaeth. Mae'r meysydd allweddol hyn yn debygol o ganolbwyntio ar agweddau lle mae'r aseswr allanol o'r farn bod angen ehangu'r dystiolaeth a gyflwynwyd, neu lle ceir diffyg tystiolaeth ar gyfer amcan penodol.

Bydd yr aseswr allanol yn defnyddio'r dystiolaeth o Dasgau A, B a C i gynllunio'r drafodaeth er mwyn sicrhau bod y drafodaeth wedi'i theilwra at yr ymgeisydd a'r gwasanaeth y mae'n

gweithio ynddo, yn ogystal â nodi meysydd i'w hystyried ymhellach.  Bydd yn galluogi'r aseswr allanol i ystyried themâu a meysydd pwnc allweddol;  ac ystyried y mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn er mwyn strwythuro'r drafodaeth. Rhaid defnyddio ffurflen cofnodi'r aseswr allanol (Atodiad 4) i gofnodi'r wybodaeth hon cyn y drafodaeth*.

Dylai'r aseswr allanol anelu at hwyluso trafodaeth wedi'i harwain gan yr ymgeisydd. Dylai'r aseswr allanol baratoi cyfres o gwestiynau a fydd yn helpu i strwythuro a chefnogi'r drafodaeth broffesiynol. Dylai'r cwestiynau hyn ganolbwyntio ar,

- Gwerthusiad yr ymgeisydd o'i weithgareddau, a'i fyfyrdodau yn eu cylch, e.e.
    - Beth ddigwyddodd
    - Beth oedden nhw wedi'i ddisgwyl
    - Beth wnaeth ei synnu, neu na ddigwyddodd yn ôl y bwriad yn llawn
    - Beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf
    - Beth mae wedi'i ddysgu am ei ffordd o weithio a'i ymarfer mewn perthynas â'r gweithgareddau a gyflawnwyd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd o weithio fel Eiriolwr Annibynnol wedi'i ystyried drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau asesu.  Gallai hyn hwyluso'r drafodaeth drwy gynnig cwestiynau fel,
    - Pam oeddech chi'n gwybod hynny?
    - Beth wnaeth i chi ddefnyddio'r dull hwnnw?
    - Beth oedd eich ystyriaethau ar y pryd?

Mae tabl 1 isod yn dangos yr holl bwyntiau trafod y mae'n rhaid ymdrin â nhw.  Ceir chwe phrif bwynt trafod.  Fe'u cynlluniwyd i ysgogi ymatebion wedi'u targedu at feysydd penodol o'r safon a'r arferion gwaith ar gyfer y cymhwyster.  Maent yn helpu i sicrhau bod pob ymgeisydd yn ymdrin â chynnwys y cymhwyster mewn ffordd gyson.

** Os bydd yr aseswr allanol yn nodi diffygion sylweddol yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymgeisydd sy'n peri pryder sylweddol o ran lefel cymhwysedd yr ymgeisydd cyn cynnal y drafodaeth broffesiynol, yna dylid cynnal trafodaeth â'r ganolfan/ymgeisydd. Yn dilyn y drafodaeth hon, mae'n bosibl y gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth ychwanegol fel rhan o'r portffolio neu mae'n bosibl y gofynnir i'r ymgeisydd ymgymryd â gweithgaredd datblygiadol pellach, cyn ailgyflwyno tystiolaeth bellach, ac ymgymryd â'r drafodaeth broffesiynol.*

*Os bydd angen rhagor o dystiolaeth, yna dylai'r aseswr allanol ddefnyddio'r ffurflen adborth (Atodiad 7) i'w darparu.*

**Tabl 1**

| Pwyntiau trafod | |
|---|---|
| 1. | Cymhwyso'r **wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau** gweithio o'r llwybr a ddewiswyd gennych |
| 2. | Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r **ddeddfwriaeth, y confensiynau a'r offerynnau hawliau dynol** sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd |
| 3. | Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i **sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau** unigolion a/neu ofalwyr eu cynrychioli |
| 4. | Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o **hawliau** mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau |
| 5. | Defnyddio **sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol** i sicrhau bod ymarfer yn seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth |
| 6. | Yn dangos **hunanymwybyddiaeth** er mwyn gwella ymarfer |

## Cynnal y drafodaeth broffesiynol

### Amgylchedd asesu

Ar ddiwrnod yr asesiad, bydd yr aseswr allanol yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw asesiad yn cael ei gynnal mewn amgylchedd priodol lle na cheir unrhyw amharu na thorri ar draws. Bydd angen i'r aseswr allanol gydgysylltu â chynrychiolwyr y ganolfan er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd asesu ar gael ac wedi'i baratoi'n briodol, gallai hyn gynnwys sicrhau bod arwyddion priodol a threfniadau eraill ar waith a fydd yn sicrhau amgylchedd addas drwy gydol y gweithgaredd asesu.

### Cyflwyno'r drafodaeth broffesiynol

Mae'n bwysig bod yr aseswr allanol yn tawelu meddwl yr ymgeisydd ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Pwrpas hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd mae'r ymgeisydd yn cyrraedd safonau'r cymhwyster drwy leihau'r graddau y gallai pryder effeithio ar ei berfformiad.

Dylai'r aseswr allanol wneud y canlynol:

1. Cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses ac, os yw'n berthnasol, gofyn am ganiatâd i gofnodi'r drafodaeth
2. Crynhoi pwrpas a strwythur yr asesiad
3. Gofyn i'r ymgeisydd pa ddeunydd cyfeirio y daeth gydag ef i'r drafodaeth

4. Pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol
5. Gofyn i'r ymgeisydd a oes ganddo unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau

## Yn ystod y drafodaeth broffesiynol

Yn ystod y drafodaeth, dylai'r aseswr allanol gofnodi'r holl ymatebion ar Ffurflen Cofnodi'r Aseswr Allanol (Atodiad 4) a ddarperir.

Dylai'r drafodaeth broffesiynol deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn galluogi'r ymgeisydd i lywio'r sgwrs. Disgwylir y bydd yr aseswr allanol yn defnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, fel 'Sut roeddet ti'n gwybod hynny?', 'Sut wnes di ddod i'r casgliad hwnnw?'
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth y dysgwr yn gywir

Rhaid i'r aseswr allanol sicrhau na fydd yn ateb cwestiynau'n anfwriadol neu'n rhoi awgrymiadau neu brociau a allai arwain neu gyfeirio ymgeiswyr tuag at ateb penodol neu ateb wedi'i fframio.

## Amseru

Ni ddylai'r asesiad bara mwy na chyfanswm o **45 munud**.

Disgwylir i'r aseswr allanol reoli amseriadau drwy gydol y drafodaeth, gan hysbysu'r ymgeisydd fel y bo'n briodol.

## Deunyddiau

- Y deunyddiau asesu a gwblhawyd gan yr ymgeisydd
- Ffurflen Cofnodi'r Aseswr Allanol (Atodiad 4)
- Cyfarwyddiadau'r ymgeisydd ar gyfer Tasg Ch
- Tabl 1 sy'n amlinellu'r pwyntiau trafod disgwyliedig

## Ffurflenni cofnodi

Cyn y drafodaeth broffesiynol, dylai'r aseswr allanol baratoi ffurflen cofnodi'r aseswr allanol (Atodiad 4) gan gwblhau'r meysydd y bwriedir eu trafod â phob ymgeisydd. Dylai'r aseswr allanol gadw fersiwn o'r ffurflen wedi'i pharatoi; dylid wedyn ei defnyddio yn ystod y drafodaeth broffesiynol i gofnodi'r ymatebion a roddir gan y dysgwr ac unrhyw bynciau pellach a drafodir neu unrhyw gwestiynau eraill a ofynnir.

Gall yr aseswr allanol naill ai gwblhau'r ffurflen ar ffurf electronig yn ystod y drafodaeth broffesiynol neu ei hargraffu ar ffurf copi caled er mwyn ysgrifennu arni. Os bydd yn argraffu copi caled, awgrymir efallai y dylai'r aseswr allanol gynyddu maint y blychau y bydd yn ysgrifennu ynddynt cyn argraffu'r ffurflen.

## Gwneud penderfyniad asesu terfynol

### Adolygu'r dystiolaeth a'r graddau

Ar ôl cwblhau'r dystiolaeth derfynol, ac yn dilyn y drafodaeth broffesiynol, dylai'r aseswr allanol sicrhau bod digon o dystiolaeth wedi'i darparu ar gyfer holl gynnwys y cymhwyster a llunio barn gyfannol derfynol.

Dylai'r aseswr allanol adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd a defnyddio'r disgrifyddion graddio (Atodiad 2) i lunio barn gyfannol ar berfformiad yr ymgeisydd yn y chwe maes amcan allweddol. Rhaid cofnodi crynodeb o sut y lluniodd yr aseswr allanol y farn hon ar Ffurflen Crynodeb Graddio'r Aseswr Allanol (Atodiad 5 - Adran 1); caiff y dystiolaeth hon ei chadw at ddibenion gwaith samplu a safoni aseswyr arweiniol City & Guilds ar gyfer aseswyr allanol.

Fel rhan o'i farn asesu derfynol, dylai'r aseswr allanol ystyried i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi bodloni'r meysydd amcan allweddol – o fewn cyd-destun yr uned orfodol a'r llwybr dewisol a astudiwyd gan yr ymgeisydd.

Dylai'r farn asesu gyffredinol fod yn seiliedig ar dystiolaeth o bob tasg.

Ar ôl cwblhau ei farn asesu derfynol, dylai'r aseswr allanol gwblhau Adran 2 o Ffurflen Crynodeb Graddio'r Aseswr Allanol (Atodiad 5). Caiff y ffurflen hon ei chyflwyno i City & Guilds er mwyn cadarnhau canlyniad yr ymgeisydd.

Bydd City & Guilds yn cadarnhau canlyniadau'r ymgeisydd o fewn 30 diwrnod gwaith i gwblhau'r drafodaeth broffesiynol.

### Trefniadau ailsefyll

Gall ymgeiswyr sy'n methu â bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer sicrhau llwyddiant cyffredinol ar gyfer y cymhwyster ailgyflwyno'r asesiad.

Bydd yr aseswr allanol yn rhoi adborth ar berfformiad cyffredinol yr ymgeisydd, gan dynnu sylw at y meysydd amcan lle na nodwyd tystiolaeth ddigonol. Mewn rhai achosion, gall fod angen cyflwyno tystiolaeth ychwanegol drwy'r portffolio. Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd yr aseswr allanol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol bellach yn dilyn cyfnod o ddysgu a chymorth pellach er mwyn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi datblygu hyd at lefel ddigonol i ddyfarnu llwyddiant iddo.

Bydd angen i'r aseswr allanol roi adborth i'r ganolfan a'r ymgeisydd gan ddefnyddio Adran 3 o Ffurflen Crynodeb Graddio'r Aseswr Allanol (Atodiad 5) er mwyn cadarnhau'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd fel rhan o'r broses ailgyflwyno. Rhoddir adborth ar lefel uchel er mwyn helpu'r ymgeisydd i ddeall y meysydd amcan na ddarparwyd tystiolaeth ddigonol ar eu cyfer o fewn y meini prawf graddio, er mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd nodi'n union sut y bydd yn ymateb ac yn darparu tystiolaeth bellach fel y bo angen.

Lle y bo'n ofynnol i ymgeisydd ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol bellach a chyn cynnal y drafodaeth hon, rhaid i'r aseswr mewnol ddarparu llwybr archwilio clir sy'n dangos sut y rhoddwyd adborth i'r ymgeisydd cyn ymgymryd â'r broses hon, a pha gamau adfer a gymerwyd er mwyn helpu'r ymgeisydd i ddatblygu unrhyw ddiffygion o ran ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth.
Darparwyd ffurflen adborth i'r aseswr allanol ddangos tystiolaeth o'r adborth a roddwyd (Atodiad 7).

# Atodiad 1 Gofynion marcio

Dylid defnyddio'r gofynion marcio canlynol er mwyn asesu'r tasgau unigol a gaiff eu hasesu'n fewnol fel rhan o'r asesiad hwn.

| Tasg | Gofynion marcio | Cwmpas dangosol |
|---|---|---|
| **Tasg A** | Bydd yr aseswr mewnol yn adolygu'r dystiolaeth a ddarperir gan bortffolio'r ymgeisydd ac yn nodi sut mae'r dystiolaeth a ddarperir yn bodloni deilliannau dysgu'r cynnwys gorfodol a chynnwys yr uned ar gyfer y llwybr. | |
| **Tasg B** | Er mwyn cyflawni llwyddiant, mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gwneud y canlynol:<br>• nodi ac yn deall yr amrywiaeth o ddeddfwriaeth sy'n llywio rôl Eiriolwr Annibynnol<br>• creu cysylltiadau cadarn rhwng pob darn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys<br>    • Y Ddeddf Hawliau Dynol<br>    • Y Ddeddf Cydraddoldeb<br>    • Y Ddeddf Galluedd Meddyliol<br>    • Y Ddeddf Iechyd Meddwl<br>    • Deddfwriaeth sy'n ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc<br>    • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>    • Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br>    • Deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg<br>• deall pwysigrwydd deddfwriaeth a meddu ar ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth hon er mwyn cefnogi eu hymarfer fel Eiriolwr Annibynnol. Mae'r ymgeisydd yn ystyried nod, diben ac elfennau allweddol o'r gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i eiriolaeth annibynnol<br>• deall sut y caiff ei ymarfer fel eiriolwr annibynnol ei lywio drwy ddeall deddfwriaeth. | 429 DD1 – DD9 |
| **Tasg C(i)** | Bydd yr aseswr mewnol yn cwblhau tri arsylwad o'r ymgeisydd yn ymarfer ac yn cadarnhau sut mae'r ymarfer yn bodloni deilliannau dysgu'r cynnwys gorfodol a chynnwys yr uned ar gyfer y llwybr. | 428 DD1-DD9 a'r uned berthnasol ar gyfer y llwybr |
| **Tasg C(ii)** | Bydd yr aseswr mewnol yn adolygu sut mae'r log myfyriol yn bodloni gofynion deilliannau dysgu'r cynnwys gorfodol a chynnwys yr uned ar gyfer y llwybr. | |

# Atodiad 2 Tablau o'r disgrifyddion graddio

Defnyddir y disgrifyddion graddio yma gan yr aseswr allanol i lunio barn asesu gyfannol derfynol o'r dystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd ar gyfer yr holl dasgau ar ôl cwblhau'r Drafodaeth Broffesiynol (Tasg Ch).

Mae'r disgrifyddion graddio yn seiliedig ar amcanion dysgu allweddol y cymhwyster. Mae'r disgrifyddion llwyddiant yn adlewyrchu'r lefel dderbyniol y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei dangos er mwyn cynnig tystiolaeth bod yr amcan wedi'i gyflawni drwy'r tasgau asesu. Maent yn ddangosol eu natur, a gall yr aseswr allanol nodi tystiolaeth bellach er mwyn helpu i gadarnhau'r amcan, ond rhaid dangos tystiolaeth o'r disgrifyddion llwyddiant hyn.

Mae'r disgrifyddion llwyddiant wedi'u mapio i'r deilliannau dysgu o fewn cynnwys y cymhwyster lle y gellir adlewyrchu'r amcanion hyn orau. *Noder*, fodd bynnag oherwydd natur gyfannol cynnwys y cymhwyster, mai dim ond fel awgrym o'r meysydd cynnwys y gall ymgeiswyr eu defnyddio i ddangos eu gallu i gyflawni'r amcanion hyn orau y darperir y cysylltiadau mapio hyn â'r deilliannau dysgu.

Darparwyd disgrifyddion graddio unigol ar gyfer y pedwar maes llwybr sy'n rhan o'r cymhwyster. Mae modd eu cymharu ond fe'u dyluniwyd ar wahân er mwyn gallu gosod cynnwys penodol pob llwybr o fewn cyd-destun unigol.

Defnyddir y disgrifyddion graddio canlynol er mwyn llunio barn gyfannol gyffredinol wrth asesu ymgeiswyr sy'n cwblhau'r llwybr **Eiriolaeth annibynnol ag oedolion (430)**.

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso **gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau** yn y llwybr a ddewiswyd | **428 DD1-DD9** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei ddealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol yn glir, gan adlewyrchu'r diben allweddol, yr egwyddorion a'r arferion sy'n sail i rôl eiriolwr annibynnol drwy'r rôl honno. Gall yr ymgeisydd gysylltu ei rôl â chyd-destun polisi ehangach eiriolaeth annibynnol, gan ddeall y gwahanol fathau o eiriolaeth annibynnol a'r amgylchiadau lle y gellir ei defnyddio.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o pam y gall fod angen i unigolion gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys yr amrywiaeth cymhleth o gefndiroedd a'r rhesymau pam y gall fod angen cymorth gan eiriolwr annibynnol. Mae ymgeiswyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i helpu unigolion a/neu ofalwyr i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:<br>• Dileu unrhyw rwystrau i eiriolaeth<br>• Pennu gofynion penodol yr unigolyn a/neu'r gofalwr<br>• Adolygu ac addasu eu harddull cyfathrebu (lle y bo'n briodol) er mwyn helpu'r unigolyn a/neu'r gofalwr yn y ffordd orau<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau diogelu yn ei rôl fel Eiriolwr Annibynnol. Mae'r ymgeisydd yn deall y canlynol:<br>• Y camau gweithredu i'w cymryd os bydd amheuon o ran pryder diogelu, gan gynnwys ffiniau awdurdod a chyfrifoldebau adrodd<br>• Y prosesau diogelu i'w dilyn os bydd angen, gan gynnwys sut i helpu unigolion i gadw a chynnal rheolaeth yn ystod y broses ddiogelu |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r **ddeddfwriaeth, y confensiynau a'r offerynnau hawliau dynol** sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd | **429 DD1-DD9**<br>**430 DD1-DD5** | Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng nghyd-destun eiriolaeth annibynnol ac yn adlewyrchu pwysigrwydd deddfwriaeth yn ei rôl fel Eiriolwr Annibynnol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu defnyddio deddfwriaeth sy'n berthnasol i rôl eiriolaeth annibynnol ag oedolion er mwyn llywio ei ymarfer. Mae'r ymgeisydd wedi dangos yn benodol ei fod wedi gwneud y canlynol:<br>• Defnyddio Rhan 10 o'r Cod Ymarfer (eiriolaeth) i lywio ymarfer<br>• Nodi a chadarnhau pan fydd gan unigolion a/neu ofalwyr yr hawl i eiriolaeth statudol |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i **sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau** unigolion a/neu ofalwyr eu cynrychioli | **428 DD2 - DD5**<br>**430 DD2-DD4** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, gan gynnwys mewn cyfarfodydd gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud y canlynol:<br>• Deall rôl gwasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hynny<br>• Cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys helpu unigolion a/neu ofalwyr i ddeall eu hawliau a'r broses y dylid ei dilyn<br>• Cadarnhau eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau am y canlyniadau yr hoffent eu cyflawni<br>• Adolygu penderfyniadau a chanlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau a chytuno ar gamau gweithredu lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn a/neu'r gofalwr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn sicrhau'r canlynol:<br>• Caiff safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a/neu'r gofalwr eu hystyried bob amser ac maent yn greiddiol i'r penderfyniadau a wneir<br>• Ei fod yn ystyried ei arddull a'i dechneg cyfathrebu, ac yn eu hadolygu a'u haddasu (lle bo angen) er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r unigolyn a/neu'r gofalwr gael gafael ar wybodaeth mewn perthynas ag eiriolaeth a'r broses gwneud penderfyniadau a deall y wybodaeth honno<br>• Ei fod yn gallu helpu unigolion a/neu ofalwyr i ddefnyddio prosesau anffurfiol a/neu ffurfiol i herio penderfyniadau lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolion a/neu'r gofalwyr |
| Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o **hawliau** mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau | **428 DD2-DD5, DD7-DD8**<br>**429 DD2-DD7, DD9**<br>**430 DD1, DD4-DD5** | Mae'r ymgeisydd yn helpu'r unigolyn a/neu'r gofalwr i gyfranogi ac ymgysylltu drwy ei helpu i arwain y broses eiriolaeth mewn perthynas â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gyflawni'r canlyniadau sy'n bodloni ei safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos y defnydd o ddeddfwriaeth sy'n sail i hawliau unigolion, fel y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb, wrth iddo helpu unigolion a/neu ofalwyr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol<br>• Galluogi unigolion a/neu ofalwyr i archwilio ac ystyried y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'r ymgeisydd yn sicrhau y caiff y broses bob amser ei harwain gan yr unigolyn/gofalwr ond mae'n rhoi cymorth er mwyn galluogi'r unigolyn a/neu'r gofalwr i nodi canlyniadau ei benderfyniadau.<br>• Dangos ei fod yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy ddatblygu a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu unigolion a/neu ofalwyr i godi pryderon a chymryd camau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu dylanwadu ar newid cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant drwy ei rôl fel eiriolwr annibynnol. Mae ymgeiswyr yn ystyried sut y gall nodweddion cydraddoldeb effeithio ar yr unigolion a/neu ofalwyr y maent yn eu cefnogi a thrwy eu rôl, yn dangos gallu i leihau effaith allgáu cymdeithasol ar unigolion a/neu ofalwyr. Mae'r ymgeisydd yn hyrwyddo ymarfer sy'n parchu anghenion amrywiol unigolion a/neu ofalwyr. |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Defnyddio **sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol** i sicrhau bod ymarfer yn seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth | **428 DD7**<br>**430 DD5** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu cymhwyso egwyddorion eiriolaeth annibynnol i ddatblygu strategaethau er mwyn gwneud y canlynol:<br>• Helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau<br>• Herio a datrys penderfyniadau ar ran unigolion a/neu ofalwyr<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol i ystyried yr opsiynau sydd ar gael ac yn defnyddio'r sgiliau hyn i benderfynu ar y strategaeth orau neu'r dull gorau ar gyfer y sefyllfa dan sylw. |
| Yn dangos **hunanymwybyddiaeth** er mwyn gwella ymarfer | **428 DD6** | Mae'r ymgeisydd wedi dangos ei allu i wneud y canlynol:<br>• Gwerthuso ei ymarfer ei hun a myfyrio arno<br>• Defnyddio sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu i ystyried amrywiaeth o heriau emosiynol a heriau o ran ymarfer sy'n berthnasol i rôl eiriolwr annibynnol<br>• Ystyried adborth o sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu er mwyn ei helpu i ddatblygu ymarfer, drwy nodi anghenion datblygu/dysgu<br>• Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o fyfyrio ac o adborth a gafwyd i ddatblygu strategaethau sy'n dylanwadu ar ei ymarfer ac yn ei ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol |

Defnyddir y disgrifyddion graddio canlynol er mwyn llunio barn gyfannol gyffredinol wrth asesu ymgeiswyr sy'n cwblhau'r llwybr **Eiriolaeth annibynnol â phlant a phobl ifanc (431)**.

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso **gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau** yn y llwybr a ddewiswyd | **428 DD1-DD9** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei ddealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol yn glir, gan adlewyrchu'r diben allweddol, yr egwyddorion a'r arferion sy'n sail i rôl eiriolwr annibynnol drwy'r rôl honno. Gall yr ymgeisydd gysylltu ei rôl â chyd-destun polisi ehangach eiriolaeth annibynnol, gan ddeall y gwahanol fathau o eiriolaeth annibynnol a'r amgylchiadau lle y gellir ei defnyddio.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o pam y gall fod angen i unigolion gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys yr amrywiaeth cymhleth o gefndiroedd a'r rhesymau pam y gall fod angen cymorth gan eiriolwr annibynnol. Mae ymgeiswyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i helpu plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:<br>• Dileu unrhyw rwystrau i eiriolaeth<br>• Pennu gofynion penodol y plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr<br>• Adolygu ac addasu eu harddull cyfathrebu (lle y bo'n briodol) er mwyn helpu'r plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr yn y ffordd orau<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau diogelu yn ei rôl fel eiriolwr annibynnol. Mae'r ymgeisydd yn deall y canlynol:<br>• Y camau gweithredu i'w cymryd os bydd amheuon o ran pryder diogelu, gan gynnwys ffiniau awdurdod a chyfrifoldebau adrodd<br>• Y prosesau diogelu i'w dilyn os bydd angen, gan gynnwys sut i helpu plant/pobl ifanc i gadw a chynnal rheolaeth yn ystod y broses ddiogelu |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r **ddeddfwriaeth** sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd | **429 DD1-LO9**<br>**431 DD1-DD6** | Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng nghyd-destun eiriolaeth annibynnol ac yn adlewyrchu pwysigrwydd deddfwriaeth yn ei rôl fel Eiriolwr Annibynnol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau fel Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol i Blant o dan y canlynol:<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol<br>• Y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru<br>• Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu defnyddio deddfwriaeth sy'n berthnasol i rôl Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol i blant er mwyn llywio ei ymarfer. Mae'r ymgeisydd wedi dangos yn benodol ei fod wedi gwneud y canlynol:<br>• Defnyddio'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru<br>• Defnyddio Rhan 10 o'r Cod Ymarfer (eiriolaeth) i lywio ymarfer<br>• Nodi a chadarnhau pan fydd gan blant a phobl ifanc a/neu ofalwyr yr hawl i gynnig eiriolaeth gweithredol ac eiriolaeth statudol ar sail materion penodol |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i **sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau** unigolion a/neu ofalwyr eu hystyried | **428 DD2 – DD5**<br>**431 DD2-DD6** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu helpu plant a phobl ifanc a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, gan gynnwys mewn cyfarfodydd gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy helpu plant a phobl ifanc a/neu ofalwyr i wneud y canlynol:<br>• Deall rôl gwasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hynny<br>• Cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys helpu plant a phobl ifanc a/neu ofalwyr i ddeall eu hawliau, y mathau o gymorth eiriolaeth annibynnol sydd ar gael iddynt a'r broses y dylid ei dilyn<br>• Cadarnhau eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau am y canlyniadau yr hoffent eu cyflawni<br>• Adolygu penderfyniadau a chanlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau a chytuno ar gamau gweithredu lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn a/neu'r gofalwr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn sicrhau'r canlynol:<br>• Mae'n pennu paramedrau rôl yr Eiriolwr Annibynnol â phlant a phobl ifanc a/neu ofalwyr yn glir<br>• Caiff safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu berson ifanc a/neu'r gofalwr eu hystyried bob amser ac maent yn greiddiol i'r penderfyniadau a wneir<br>• Ei fod yn ystyried ei arddull a'i dechneg cyfathrebu, ac yn eu hadolygu a'u haddasu (lle bo angen) er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr gael gafael ar wybodaeth mewn perthynas ag eiriolaeth a'r broses gwneud penderfyniadau a deall y wybodaeth honno<br>• Ei fod yn gallu helpu plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr i ddefnyddio prosesau anffurfiol a/neu ffurfiol i herio penderfyniadau lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddiant |
|---|---|---|
| Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o **hawliau** mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau | **428 DD2-DD5, DD7-DD8**<br>**429 DD2-DD7, DD9**<br>**431 DD1, DD4-DD6** | Mae'r ymgeisydd yn helpu'r plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr i gyfranogi ac ymgysylltu drwy ei helpu i arwain y broses eiriolaeth mewn perthynas â'r penderfyniadau sy'n effeithio arno, ac i gyflawni'r canlyniadau sy'n bodloni ei safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos y defnydd o ddeddfwriaeth sy'n sail i hawliau unigolion, fel y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb, wrth iddo helpu plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn helpu plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol<br>• Galluogi plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr i archwilio ac ystyried y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'r ymgeisydd yn sicrhau y caiff y broses bob amser ei harwain gan y plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr ond mae'n rhoi cymorth er mwyn galluogi'r plentyn/person ifanc a/neu'r gofalwr i nodi canlyniadau ei benderfyniadau.<br>• Helpu plant a phobl ifanc i ddeall prosesau gwneud penderfyniadau, eu rôl a rôl yr eiriolwr annibynnol<br>• Dangos ei fod yn helpu plant a phobl ifanc a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy ddatblygu a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr i godi pryderon a chymryd camau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.<br>• Helpu'r plentyn/person ifanc i ystyried y prosesau anffurfiol a ffurfiol y gellir eu defnyddio i herio penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn helpu'r plentyn/person ifanc i ystyried buddiannau a manteision gwahanol fathau o brosesau gwneud penderfyniadau (anffurfiol a ffurfiol) i'w helpu i herio penderfyniadau'n briodol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu dylanwadu ar newid cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant drwy ei rôl fel eiriolwr annibynnol. Mae ymgeiswyr yn ystyried sut y gall nodweddion cydraddoldeb effeithio ar yr unigolion a/neu ofalwyr y maent yn eu cefnogi a thrwy eu rôl, yn dangos gallu i leihau effaith allgáu cymdeithasol ar blant a phobl ifanc a/neu ofalwyr. Mae'r ymgeisydd yn hyrwyddo ymarfer sy'n parchu anghenion amrywiol plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr. |
| Defnyddio **sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol** i **greu dadleuon a llunio barn** sy'n seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth | **428 DD7**<br>**431 DD5** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu cymhwyso egwyddorion eiriolaeth annibynnol i ddatblygu strategaethau er mwyn gwneud y canlynol:<br>• Helpu plant a phobl ifanc a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau<br>• Herio a datrys penderfyniadau ar ran plant/pobl ifanc a/neu ofalwyr<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol i ystyried yr opsiynau sydd ar gael ac yn defnyddio'r sgiliau hyn i benderfynu ar y strategaeth orau neu'r dull gorau ar gyfer y sefyllfa dan sylw. |
| Yn dangos **hunanymwybyddiaeth** er mwyn gwella ymarfer | **428 DD6** | Mae'r ymgeisydd wedi dangos ei allu i wneud y canlynol:<br>• Gwerthuso ei ymarfer ei hun a myfyrio arno<br>• Defnyddio sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu i ystyried amrywiaeth o heriau emosiynol a heriau o ran ymarfer sy'n berthnasol i rôl eiriolwr annibynnol<br>• Ystyried adborth o sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu er mwyn ei helpu i ddatblygu ymarfer, drwy nodi anghenion datblygu/dysgu<br>• Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o fyfyrio ac o adborth a gafwyd i ddatblygu strategaethau sy'n dylanwadu ar ei ymarfer ac yn ei ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol |

Defnyddir y disgrifyddion graddio canlynol er mwyn llunio barn gyfannol gyffredinol wrth asesu ymgeiswyr sy'n cwblhau'r llwybr **Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (432)**.

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso **gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau** yn y llwybr a ddewiswyd | **428 DD1-DD9**<br>**432 DD2** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei ddealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol yn glir, gan adlewyrchu'r diben allweddol, yr egwyddorion a'r arferion sy'n sail i rôl eiriolwr annibynnol drwy'r rôl honno. Gall yr ymgeisydd gysylltu ei rôl â chyd-destun polisi ehangach eiriolaeth annibynnol, gan ddeall y gwahanol fathau o eiriolaeth annibynnol a'r amgylchiadau lle y gellir ei defnyddio.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o pam y gall fod angen i unigolion gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys yr amrywiaeth cymhleth o gefndiroedd a'r rhesymau pam y gall fod angen cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol Mae ymgeiswyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i helpu unigolion a/neu ofalwyr i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:<br>• Dileu unrhyw rwystrau i eiriolaeth<br>• Pennu gofynion penodol yr unigolyn a/neu'r gofalwr<br>• Adolygu ac addasu eu harddull cyfathrebu (lle y bo'n briodol) er mwyn helpu'r unigolyn a/neu'r gofalwr yn y ffordd orau<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau diogelu yn ei rôl fel Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Mae'r ymgeisydd yn deall y canlynol:<br>• Y camau gweithredu i'w cymryd os bydd amheuon o ran pryder diogelu, gan gynnwys ffiniau awdurdod a chyfrifoldebau adrodd<br>• Y prosesau diogelu i'w dilyn os bydd angen, gan gynnwys sut i helpu unigolion i gadw a chynnal rheolaeth yn ystod y broses ddiogelu<br><br>Gall yr ymgeisydd ddarparu cymorth i unigolion gan ddefnyddio eiriolaeth ddi-gyfarwyddyd, gan ddefnyddio prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer atgyfeirio, datblygu cymorth, cynrcyhioli  a chyfarwyddo eiriolaeth ddi-gyfarwyddyd ag unigolion na allant roi cyfarwyddyd. |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r **ddeddfwriaeth** sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd | **429 DD1-DD9**<br>**432 DD1-DD5** | Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng nghyd-destun eiriolaeth annibynnol ac yn adlewyrchu pwysigrwydd deddfwriaeth yn ei rôl fel Eiriolwr Annibynnol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu defnyddio deddfwriaeth sy'n berthnasol i rôl Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol er mwyn llywio ei ymarfer. Mae'r ymgeisydd wedi dangos yn benodol ei fod wedi gwneud y canlynol:<br>• Defnyddio'r ddeddfwriaeth, Codau Ymarfer a chanllawiau perthnasol er mwyn llywio ei rôl fel Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol<br>• Sicrhau y caiff unigolion eu hysbysu am eu hawliau dynol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl<br>• Nodi a chadarnhau pan fydd gan unigolion a/neu ofalwyr yr hawl i gael cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i **sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau** unigolion a/neu ofalwyr eu hystyried | **428 DD2-DD5**<br>**432 DD2-DD4** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau, gan gynnwys o ran eu hopsiynau gofal a thriniaeth. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud y canlynol:<br>• Deall rôl gwasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hynny<br>• Cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys helpu unigolion a/neu ofalwyr i ddeall eu hawliau a'r broses y dylid ei dilyn<br>• Cadarnhau eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau am y canlyniadau yr hoffent eu cyflawni<br>• Defnyddio strategaethau i ymgysylltu â'r amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal a'u triniaeth<br>• Adolygu penderfyniadau a chanlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau a chytuno ar gamau gweithredu lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn a/neu'r gofalwr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn sicrhau'r canlynol:<br>• Caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn a/neu'r gofalwr eu hystyried bob amser ac maent yn greiddiol i'r penderfyniadau a wneir<br>• Gall gynrychioli safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau unigolion gan ddefnyddio eiriolaeth ddi-gyfarwyddyd lle na all unigolion roi cyfarwyddyd eu hunain<br>• Ei fod yn ystyried ei arddull a'i dechneg cyfathrebu, ac yn eu hadolygu a'u haddasu (lle bo angen) er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r unigolyn a/neu'r gofalwr gael gafael ar wybodaeth mewn perthynas ag eiriolaeth a'r broses gwneud penderfyniadau a deall y wybodaeth honno<br>• Ei fod yn gallu helpu unigolion a/neu ofalwyr i ddefnyddio prosesau anffurfiol a/neu ffurfiol i herio penderfyniadau lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolion a/neu'r gofalwyr |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddiant |
|---|---|---|
| Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o **hawliau** mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau | **428 DD2-DD5, DD7-DD8**<br>**429 DD2-DD7, DD9**<br>**432 DD2-DD4** | Mae'r ymgeisydd yn helpu'r unigolyn a/neu'r gofalwr i gyfranogi ac ymgysylltu drwy ei helpu i arwain y broses eiriolaeth mewn perthynas â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gyflawni'r canlyniadau sy'n bodloni ei safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos y defnydd o ddeddfwriaeth sy'n sail i hawliau unigolion, fel y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb, wrth iddo helpu unigolion a/neu ofalwyr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol<br>• Galluogi unigolion a/neu ofalwyr i archwilio ac ystyried y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'r ymgeisydd yn sicrhau y caiff y broses bob amser ei chefnogi gan yr unigolyn/gofalwr ond mae'n rhoi cymorth er mwyn galluogi'r unigolyn a/neu'r gofalwr i nodi canlyniadau ei benderfyniadau.<br>• Dangos ei fod yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy ddatblygu a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu unigolion a/neu ofalwyr i godi pryderon a chymryd camau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu dylanwadu ar newid cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant drwy ei rôl fel Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Mae ymgeiswyr yn ystyried sut y gall nodweddion cydraddoldeb effeithio ar yr unigolion a/neu ofalwyr y maent yn eu cefnogi a thrwy eu rôl, yn dangos gallu i leihau effaith allgáu cymdeithasol ar unigolion a/neu ofalwyr. Mae'r ymgeisydd yn hyrwyddo ymarfer sy'n parchu anghenion amrywiol unigolion a/neu ofalwyr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn helpu unigolion a gaiff eu hatgyfeirio mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfyngu neu amddifadu o ryddid. Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod wedi ystyried effaith cyfyngu neu amddifadu o ryddid ar yr unigolyn ac wedi helpu'r unigolyn i gyflwyno ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i ddewisiadau o ran y canlyniadau a ddymunnir ganddo. |
| Defnyddio **sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol** i **greu dadleuon a llunio barn** sy'n seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth | **428 DD7**<br>**432 DD5** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu cymhwyso egwyddorion eiriolaeth annibynnol i ddatblygu strategaethau er mwyn gwneud y canlynol:<br>• Helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau<br>• Herio a datrys penderfyniadau ar ran unigolion a/neu ofalwyr<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol i ystyried yr opsiynau sydd ar gael ac yn defnyddio'r sgiliau hyn i benderfynu ar y strategaeth orau neu'r dull gorau ar gyfer y sefyllfa dan sylw.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn asesu'r risgiau i ddiogelwch wrth weithio mewn lleoliadau iechyd meddwl ac yn rhoi strategaethau ar waith sy'n lleihau risgiau ac yn cadw pobl yn ddiogel. |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Yn dangos **hunanymwybyddiaeth** er mwyn gwella ymarfer | **428 DD6** | Mae'r ymgeisydd wedi dangos ei allu i wneud y canlynol:<br>• Gwerthuso ei ymarfer ei hun a myfyrio arno<br>• Defnyddio sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu i ystyried amrywiaeth o heriau emosiynol a heriau o ran ymarfer sy'n berthnasol i rôl Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol<br>• Ystyried adborth o sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu er mwyn ei helpu i ddatblygu ymarfer, drwy nodi anghenion datblygu/dysgu<br>• Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o fyfyrio ac o adborth a gafwyd i ddatblygu strategaethau sy'n dylanwadu ar ei ymarfer ac yn ei ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol |

Defnyddir y disgrifyddion graddio canlynol er mwyn llunio barn gyfannol gyffredinol wrth asesu ymgeiswyr sy'n cwblhau'r llwybr **Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol (433)**.

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddiant** |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso **gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau** yn y llwybr a ddewiswyd | **428 DD1-DD9**<br>**433 DD2** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei ddealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol yn glir, gan adlewyrchu'r diben allweddol, yr egwyddorion a'r arferion sy'n sail i rôl eiriolwr annibynnol drwy'r rôl honno. Gall yr ymgeisydd gysylltu ei rôl â chyd-destun polisi ehangach eiriolaeth annibynnol, gan ddeall y gwahanol fathau o eiriolaeth annibynnol a'r amgylchiadau lle y gellir ei defnyddio.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o pam y gall fod angen i unigolion gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys yr amrywiaeth cymhleth o gefndiroedd a'r rhesymau pam y gall fod angen cymorth gan Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol Mae ymgeiswyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i helpu unigolion a/neu ofalwyr i gael gafael ar eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:<br>• Dileu unrhyw rwystrau i eiriolaeth<br>• Pennu gofynion penodol yr unigolyn a/neu'r gofalwr<br>• Adolygu ac addasu eu harddull cyfathrebu (lle y bo'n briodol) er mwyn helpu'r unigolyn a/neu'r gofalwr yn y ffordd orau<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau diogelu yn ei rôl fel Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Mae'r ymgeisydd yn deall y canlynol:<br>• Y camau gweithredu i'w cymryd os bydd amheuon o ran pryder diogelu, gan gynnwys ffiniau awdurdod a chyfrifoldebau adrodd<br>• Y prosesau diogelu i'w dilyn os bydd angen, gan gynnwys sut i helpu unigolion i gadw a chynnal rheolaeth yn ystod y broses ddiogelu<br><br>Gall yr ymgeisydd ddarparu cymorth i unigolion gan ddefnyddio eiriolaeth ddi-gyfarwyddyd, gan ddefnyddio prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer atgyfeirio a nodi ffynonellau er mwyn nodi safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau unigolion sy'n cael cymorth eiriolaeth galluedd meddyliol. |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r **ddeddfwriaeth** sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd | **429 DD1-DD9**<br>**433 DD1-DD8** | Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng nghyd-destun eiriolaeth annibynnol ac yn adlewyrchu pwysigrwydd deddfwriaeth yn ei rôl fel Eiriolwr Annibynnol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu defnyddio deddfwriaeth sy'n berthnasol i rôl Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol er mwyn llywio ei ymarfer. Mae'r ymgeisydd wedi dangos yn benodol ei fod wedi gwneud y canlynol:<br>• Defnyddio Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn llywio ei ymarfer. Mae'r ymgeisydd yn cydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol bob amser wrth ymgymryd â'i rôl.<br>• Nodi a chadarnhau pan fydd gan unigolion yr hawl i gael cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol<br>• Defnyddio darpariaethau a chamau diogelu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'i Chod Ymarfer i sicrhau bod yr unigolyn yn cael arfer ei hawliau a'i hawlogaethau<br>• Gwerthuso cywirdeb yr asesiad o alluedd a dilyn prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer unrhyw ailasesiad a gynhelir o alluedd yr unigolyn |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddiant |
|---|---|---|
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i **sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau** unigolion a/neu ofalwyr eu hystyried | **428 DD3-DD5**<br>**433 DD2-DD8** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu safbwyntiau, gan gynnwys mewn cyfarfodydd gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy helpu unigolion a/neu ofalwyr i wneud y canlynol:<br>• Deall rôl gwasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hynny<br>• Cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys helpu unigolion a/neu ofalwyr i ddeall eu hawliau a'r broses y dylid ei dilyn<br>• Cadarnhau eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau am y canlyniadau yr hoffent eu cyflawni<br>• Adolygu penderfyniadau a chanlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau a chytuno ar gamau gweithredu lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn a/neu'r gofalwr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn sicrhau'r canlynol:<br>• Caiff safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a/neu'r gofalwr eu hystyried bob amser ac maent yn greiddiol i'r penderfyniadau a wneir<br>• Ei fod yn ystyried ei arddull a'i dechneg cyfathrebu, ac yn eu hadolygu a'u haddasu (lle bo angen) er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r unigolyn a/neu'r gofalwr gael gafael ar wybodaeth mewn perthynas ag eiriolaeth a'r broses gwneud penderfyniadau a deall y wybodaeth honno<br>• Ei fod yn gallu helpu unigolion a/neu ofalwyr i ddefnyddio prosesau anffurfiol a/neu ffurfiol i herio penderfyniadau lle nad yw'r canlyniadau yn bodloni safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolion a/neu'r gofalwyr<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd yn benodol yn gallu helpu unigolion a gaiff eu hatgyfeirio mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â newid hirdymor o ran llety, triniaeth feddygol ddifrifol, adolygiadau o'u gofal a'u cymorth, pryderon diogelu ac achosion o gyfyngu neu amddifadu o ryddid. Ym mhob achos a atgyfeiriwyd, mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod wedi dilyn y broses gywir ar gyfer yr atgyfeiriad, gan sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn eu hystyried ar bob cam o'r broses. |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddiant |
|---|---|---|
| Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o **hawliau** mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau | **428 DD2-DD4, DD7-DD8**<br>**429 DD2-DD7, DD9**<br>**433 DD2, DD4-DD8** | Mae'r ymgeisydd yn helpu'r unigolyn a/neu'r gofalwr i gyfranogi ac ymgysylltu drwy ei helpu i arwain y broses eiriolaeth mewn perthynas â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gyflawni'r canlyniadau sy'n bodloni ei safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng nghyd-destun eiriolaeth annibynnol ac yn adlewyrchu pwysigrwydd deddfwriaeth yn ei rôl fel Eiriolwr Annibynnol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio achosion o wrthdaro ac i wneud penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol<br>• Galluogi unigolion a/neu ofalwyr i archwilio ac ystyried y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'r ymgeisydd yn sicrhau y caiff y broses bob amser ei chefnogi gan yr unigolyn/gofalwr ond mae'n rhoi cymorth er mwyn galluogi'r unigolyn a/neu'r gofalwr i nodi canlyniadau ei benderfyniadau.<br>• Dangos ei fod yn helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau. Mae'r ymgeisydd yn cyflawni hyn drwy ddatblygu a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu unigolion a/neu ofalwyr i godi pryderon a chymryd camau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu dylanwadu ar newid cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant drwy ei rôl fel Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Mae ymgeiswyr yn ystyried sut y gall nodweddion cydraddoldeb effeithio ar yr unigolion a/neu ofalwyr y maent yn eu cefnogi a thrwy eu rôl, yn dangos gallu i leihau effaith allgáu cymdeithasol ar unigolion a/neu ofalwyr. Mae'r ymgeisydd yn hyrwyddo ymarfer sy'n parchu anghenion amrywiol unigolion a/neu ofalwyr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn helpu unigolion a gaiff eu hatgyfeirio mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfyngu neu amddifadu o ryddid. Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod wedi ystyried effaith cyfyngu neu amddifadu o ryddid ar yr unigolyn ac wedi helpu'r unigolyn i gyflwyno ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i ddewisiadau o ran y canlyniadau a ddymunnir ganddo. |
| Defnyddio **sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol** i **greu dadleuon a llunio barn** sy'n seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth | **428 DD7** | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu cymhwyso egwyddorion eiriolaeth annibynnol i ddatblygu strategaethau er mwyn gwneud y canlynol:<br>• Helpu unigolion a/neu ofalwyr i herio penderfyniadau<br>• Herio a datrys penderfyniadau ar ran unigolion a/neu ofalwyr<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol i ystyried yr opsiynau sydd ar gael ac yn defnyddio'r sgiliau hyn i benderfynu ar y strategaeth orau neu'r dull gorau ar gyfer y sefyllfa dan sylw. |
| Yn dangos **hunanymwybyddiaeth** er mwyn gwella ymarfer | **428 DD6** | Mae'r ymgeisydd wedi dangos ei allu i wneud y canlynol:<br>• Gwerthuso ei ymarfer ei hun a myfyrio arno<br>• Defnyddio sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu i ystyried amrywiaeth o heriau emosiynol a heriau o ran ymarfer sy'n berthnasol i rôl Eiriolwr Annibynnol<br>• Ystyried adborth o sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu er mwyn ei helpu i ddatblygu ymarfer, drwy nodi anghenion datblygu/dysgu<br>• Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o fyfyrio ac o adborth a gafwyd i ddatblygu strategaethau sy'n dylanwadu ar ei ymarfer ac yn ei ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol |

# Atodiad 3 Ffurflen cofnodi'r aseswr mewnol

| Enw'r ymgeisydd | | Rhif yr ymgeisydd | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r aseswr mewnol** | Enw'r aseswr mewnol | **Dyddiad asesu** | DD/MM/BB |

| **Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r ffurflen hon er mwyn nodi sut y mae pob un o'r tasgau a gaiff eu hasesu yn bodloni'r gofynion marcio a nodi'r deilliannau dysgu a fodlonwyd drwy bob tasg, a sut y cyflawnwyd y deilliannau dysgu hyn.** |
|---|
| **Adran 1 – Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd (Tasg A)** |
| |

| Adran 2 – Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn y disgrifyddion marcio (Tasg B) |
|---|
| |

| Adran 3 – Adolygu'r arsylwadau a'r log myfyriol (Tasg C(i) a C(ii)) |
|---|
| |

**Rwy'n cadarnhau fod y dystiolaeth a gyflwynir yma yn ddisgrifiad cywir o'r asesiad a gynhaliwyd.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod yr aseswr mewnol** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |
| **Llofnod yr ymgeisydd** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |

# Atodiad 4 Ffurflen cofnodi'r aseswr allanol

| Enw'r ymgeisydd | | Rhif yr ymgeisydd | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r aseswr allanol** | Enw'r aseswr allanol | **Dyddiad asesu** | DD/MM/BB |

| **Adran 1 – Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd** |
|---|
| **Nodwch isod sut mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn bodloni gofynion y disgrifyddion graddio** |
| |
| **Nodwch unrhyw feysydd deilliant allweddol lle mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig, disgwylir eglurhad neu ymhelaethiad pellach** |
| |

| Adran 2 – Trafodaeth Broffesiynol |
|---|
| **Nodwch fanylion isod a fydd yn ategu strwythur y drafodaeth yn seiliedig ar y broses o adolygu'r portffolio, y log myfyriol a'r arsylwadau o ymarfer (Adran 1), e.e.**<br>• Prif bynciau/themâu i'w cwmpasu yn ystod y drafodaeth<br>• Mathau o gwestiynau i'w gofyn a wnaiff helpu i ddangos gwybodaeth/dealltwriaeth yr ymgeisydd |
| |
| **Defnyddiwch yr adran isod i nodi tystiolaeth o'r drafodaeth â'r ymgeisydd; dylai hyn gynnwys unrhyw gwestiynau penodol a ofynnwyd.** |
| |

**Rwy'n cadarnhau fod y dystiolaeth a gyflwynir yma yn ddisgrifiad cywir o'r asesiad a gynhaliwyd.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod yr Aseswr Allanol** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |
| **Llofnod yr ymgeisydd** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |

# Atodiad 5 Ffurflen crynodeb graddio'r aseswr allanol

| Ffurflen crynodeb graddio'r aseswr allanol | | |
|---|---|---|
| **Amcanion** | **Crynodeb yr aseswr allanol** | **Tystiolaeth lle y'i gwelwyd** |
| Datblygu a chymhwyso **gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau** yn y llwybr a ddewiswyd | | |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r **ddeddfwriaeth** sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd | | |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i **sicrhau y caiff safbwyntiau, dymuniadau a dewisiadau** unigolion a/neu ofalwyr eu hystyried | | |
| Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o **hawliau** mewn amrywiaeth o leoliadau/cyd-destunau | | |
| Defnyddio **sgiliau meddwl myfyriol a beirniadol** i **greu dadleuon a llunio barn** sy'n seiliedig ar egwyddorion eiriolaeth | | |
| Yn dangos **hunanymwybyddiaeth** er mwyn gwella ymarfer | | |

| **Ffurflen crynodeb graddio'r aseswr allanol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcanion** | **Crynodeb yr aseswr allanol** | **Tystiolaeth lle y'i gwelwyd** | |
| **Adran 2** | | | |
| **Cadarnhad o'r farn asesu gyffredinol** | **Mae'r ymgeisydd wedi llunio digon o dystiolaeth i ddyfarnu llwyddiant ar gyfer y cymhwyster, yn seiliedig ar adolygiad cyfannol o'r disgrifyddion graddio ar gyfer y chwe maes amcan.** | | |
| | **Nid yw'r ymgeisydd wedi llunio digon o dystiolaeth i ddyfarnu gradd llwyddiant, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd a sut mae'r dystiolaeth hon yn bodloni gofynion y disgrifyddion graddio ar gyfer y chwe maes amcan.**<br>**Dylid nodi rhagor o fanylion am y rhesymau dros hyn yn yr adran Adborth isod.** | | |
| **Adran 3** | | | |
| **Adborth** | | | |
| **Llofnod yr aseswr allanol** | | **Dyddiad** | |

# Atodiad 6 Ffurflen cofnodi arsylwadau (Aseswr mewnol)

| | |
|---|---|
| **Cofnod arsylwadau**<br>Rhaid cwblhau copi o'r ffurflen hon ar gyfer pob arsylwad ymarferol a wneir gan yr Aseswr Mewnol (Tasg B(i)). Rhaid cyflwyno pob ffurflen i City & Guilds fel rhan o'r dystiolaeth derfynol a gyflwynir gan yr ymgeisydd i'w hasesu. | |
| Enw'r ymgeisydd | |
| Rhif/dyddiad yr arsylwad | |
| Math o weithgaredd yr arsylwyd arno | |
| | |
| Arsylwadau a wnaed<br>*(Nodwch sut mae'r arsylwadau yn adlewyrchu'r deilliannau ymarfer allweddol)* | |
| Sut mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â'r deilliannau dysgu? | |
| *Arsylwadau cyffredinol* | |
| Cwestiynau dilynol a ofynnwyd<br>*(Rhestrwch y cwestiynau a ddefnyddiwyd i holi'r ymgeisydd ymhellach; a'i ymatebion)* | |
| Llofnod yr ymgeisydd: | |
| Dyddiad: | |
| Llofnod yr aseswr mewnol: | |
| Dyddiad: | |

## Atodiad 7 Ffurflen adborth

### Teitl y cymhwyster:

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd | Rhif yr ymgeisydd |
| Enw'r aseswr | Dyddiad cyflwyno |

| |
|---|
| Rhif y dasg/rhifau'r tasgau: |

| Cyfeirnod y Dystiolaeth | Adborth | Dyddiad targed a chynllun gweithredu ar gyfer ailgyflwyno |
|---|---|---|
| | | |

Rwy'n cadarnhau fod yr asesiad hwn wedi cael ei gwblhau i'r safon ofynnol a'i fod yn bodloni'r gofynion o ran dilysrwydd, cyfredoldd, a digonolrwydd.

| |
|---|
| Llofnod yr aseswr a'r dyddiad: |

## Atodiad 8 Datganiad

# Datganiad Dilysrwydd

Enw'r ymgeisydd Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan Rhif y ganolfan

**Ymgeisydd:**

**Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith i yw'r holl waith a gyflwynwyd, ac fy mod wedi cydnabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd gennyf.**

Llofnod yr ymgeisydd Dyddiad

**Llofnod yr aseswr mewnol:**

**Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.**

Llofnod yr aseswr mewnol Dyddiad

**Noder:**
**Lle nad yw'r ymgeisydd a/neu'r aseswr mewnol yn gallu cadarnhau dilysrwydd, neu lle na fydd wedi gwneud hynny drwy lofnodi'r datganiad hwn, ni fydd y gwaith yn cael ei dderbyn i'w gymedroli. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch dilysrwydd, gellir cysylltu â'r tiwtor er mwyn cael cyfiawnhad.**